# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgor 3 (Senedd)** | **Rhys Morgan** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 26 Chwefror 2024 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 11:00-17:00 | 0300 200 6565 |
| | SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru |

## Cofrestru cyn y cyfarfod (10:40 - 11:00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(11:00)

## 2 Papurau i'w nodi

(11:00)

**2.1 Gohebiaeth oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at y Cadeirydd ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar ddull iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd**

(Tudalennau 1 - 2)

**2.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

(Tudalen 3)

**2.3 Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Cadeirydd ynghylch ymchwiliad dilynol y Pwyllgor i ofal plant**

(Tudalennau 4 - 8)

**2.4 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwariant y Gyllideb**

(Tudalennau 9 - 11)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.5 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Cadeirydd ynghylch gwybodaeth ychwanegol am Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

(Tudalennau 12 - 18)

**2.6 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Cadeirydd ynghylch gwybodaeth ychwanegol am Gyllideb Ddrafft 2024/2025**

(Tudalennau 19 - 26)

**2.7 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cadeirydd ynghylch lansio'r ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r broses 'Gweithio i Wella'**

(Tudalen 27)

**2.8 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalen 28)

## 3 Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub: sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol a'r Prif Gynghorydd Tân

(11:00-12:15) (Tudalennau 29 - 61)

Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Dan Stephens, Prif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru

Liz Lalley, Cyfarwyddwr - Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar gyfer eitemau 5, 8 a 9

## 5 Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub: ystyried tystiolaeth

(12:15-12:30)

## Cinio (12:30 – 13:30)

## 6 Ymchwiliad dilynol ar ofal plant: sesiwn dystiolaeth 1

(13:30-14:45) (Tudalennau 62 - 83)

Dr David Dallimore, ymchwilydd polisi cymdeithasol a oedd yn arfer cael ei gyflogi gan Brifysgol Bangor a Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru

Hayli Gibson, Pennaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, Cyngor Sir Penfro

Janet Kelly, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Sparkle Cymru

## Egwyl (14:45-15:00)

## 7 Ymchwiliad dilynol ar ofal plant: sesiwn dystiolaeth 2

(15:00-16:15) (Tudalennau 84 - 114)

Sarah Coates, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (aelod o Bartneriaeth CWLWM)

Jane O'Toole, Clybiau Plant Cymru (aelod o Bartneriaeth CWLWM)

Sarah Mutch, Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Claire Potter, Darling Buds

## 8 Ymchwiliad dilynol i ofal plant: ystyried y dystiolaeth

(16:15–16:30)

## 9 Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: ystyried adroddiad drafft

(16:30–17:00) (I ddilyn)

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd



2 Chwefror 2024

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
(ar e-bost)

Annwyl Jenny

**Adroddiad ar yr ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd**

Diolch am eich llythyr ynghylch adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd. Rydych wedi tynnu sylw at argymhelliad 12 gan y Pwyllgor, sy’n argymell bod pob Aelod o’r Senedd yn ymrwymo i gwblhau hyfforddiant ar atal trais ar sail rhywedd, ac wedi holi sut gallai’r Comisiwn hwyluso’r gwaith o gyflwyno’r hyfforddiant hwnnw.

Mae'r Comisiwn yn rhoi hyfforddiant i Aelodau i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu dyletswyddau, gan gynnwys drwy staff yr Aelodau, a bydd yn trefnu bod hyfforddiant yn y maes penodol hwn ar gael. Bydd y tîm Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn gweithio gyda'ch Pwyllgor yn y lle cyntaf i nodi dyddiad sy'n gyfleus. Wrth wneud trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant, byddwn yn ystyried y tri maes yr ydych wedi tynnu sylw atynt yn benodol, sef:

- rhagor o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o beth yw trais ar sail rhywedd;
- sgiliau ymyrryd gwell gan wylwyr, sy’n rhoi’r sgiliau i unigolion adnabod arwyddion o achosion posibl o drais ar sail rhywedd ac i ymyrryd yn ddiogel ac yn effeithiol; a
- chymhwysedd diwylliannol: deall cymhlethdodau sy’n gysylltiedig ag ymdrin â thrais ar sail rhywedd o fewn cyd-destunau diwylliannol amrywiol.

Mae gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael wedi’i chynnwys ar dudalen Llesiant Mewnrwyd yr Aelodau, ac mae posteri codi ymwybyddiaeth yn cael eu harddangos ar hyn o bryd mewn nifer o leoliadau ar yr ystâd, ar gais y Comisiynwyr.

Mewn perthynas â staff y Comisiwn, mae'n ofynnol i bawb sy'n dechrau mewn rolau sydd â chyfrifoldebau rheoli gwblhau Rhaglen Rheolwyr Comisiwn y Senedd. Mae’r rhaglen hon yn darparu’r sgiliau a’r wybodaeth hanfodol sydd eu hangen ar staff i ddod yn rheolwr llinell sy’n perfformio i safon uchel yn y Senedd, gan gynnwys ymwybyddiaeth o’n polisïau a ble i ddod o hyd i’r canllawiau priodol. Yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau diogelu, mae gan y Comisiwn bolisi a chanllawiau ar gam-drin domestig, sy'n cydnabod cyfrifoldeb am les ein gweithwyr ac sy’n cydnabod y gall trais ar sail rhywedd fod yn fater yn y gweithle sy’n effeithio ar rai o’n gweithwyr.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Os oes unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffai eich Pwyllgor ei chael, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Cofion gorau,

**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf : Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

02 Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Ysgrifennais atoch ddydd Gwener 26 Ionawr yn eich hysbysu bod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo ddydd Llun 5 Chwefror rhwng 10 a 11.15 y bore. Yn anffodus, ddydd Llun 29 Ionawr cawsom wybod gan ein cyd-swyddogion yn Llywodraeth y DU y bydd y cyfarfod nawr yn cael ei ohirio yn dilyn cais gan Weinidogion y DU i gael amser ychwanegol i ystyried yr agenda arfaethedig.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i'r cyfarfod gael ei aildrefnu cyn gynted â phosibl, ac am i'r sgyrsiau ar lefel swyddogol barhau yn y cyfamser.

Yn anffodus, nid oes dyddiadau wedi'u cynnig, ond byddaf wrth gwrs yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor maes o law, unwaith y cytunir ar ddyddiad newydd.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

05 Chwefror 2024

Ymchwiliad dilynol i ofal plant a chyflogaeth rhieni

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Ionawr. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, byddwn yn croesawu'n fawr y cyfle i fod yn rhan o'ch ymchwiliad i ofal plant a chyflogaeth rhieni. Fel y dywedasoch yn eich llythyr, mae dull cydweithredol y Pwyllgor ar faterion trawsbynciol wedi bod yn ddull cadarnhaol ac adeiladol iawn yn y gorffennol.

Fel y gwyddoch, mae gofal plant a chyflogaeth rhieni wedi cael ei godi fel mater yn ystod ein hymchwiliad i fynediad plant a phobl ifanc anabl at ofal plant ac addysg.

Fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth, rydym wedi cwrdd â rhieni, gofalwyr a sefydliadau, sydd wedi pwysleisio ei bod yn her i blant a phobl ifanc ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol sicrhau a chynnal cyflogaeth â thâl. Mae nodiadau cryno o'r cyfarfodydd hyn ar gael ar y dudalen we ar gyfer yr ymchwiliad, ynghyd â thrawsgrifiadau o'r holl gyfarfodydd a gynhaliwyd, a'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Byddwch hefyd yn ymwybodol ein bod ni wedi ysgrifennu at Weinidog yr Economi ar y mater hwn ac wedi cael ymateb yn ddiweddar.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am yr uchod, dylech gysylltu â'r tîm Clercio.

Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda'ch Pwyllgor eto, ac at gael y wybodaeth berthnasol am y cyfarfod.

Yn gywir,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
—
Equality and Social Justice Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Annwyl Jayne,

3 Ionawr 2024

Ymchwiliad dilynol i ofal plant a chyflogaeth rhieni

Mae ein gwaith diweddar ar Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft Llywodraeth Cymru wedi elwa'n fawr o'ch cyfranogiad ac mae'n debygol bod ein dulliau o ymdrin â nifer o faterion trawsbynciol wedi'u cryfhau o ganlyniad i'n cydweithio. Roedd yr adroddiad yn nodi ein bwriad i wneud gwaith dilynol ar y mater ac rydym bellach mewn sefyllfa i roi manylion ichi.

Rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol mewn perthynas â 'Gwarchod y dyfodol: y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio', ein hadroddiad yn 2022 ar ofal plant a chyflogaeth rhieni, yng ngwanwyn 2024. Yn ogystal ag archwilio'r cynnydd o ran rhoi argymhellion yr adroddiad hwnnw ar waith, byddwn yn archwilio i ba raddau y mae gofal plant yn diwallu anghenion amrywiol teuluoedd ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal plant y mae grwpiau demograffig penodol a grwpiau mewn gwahanol rannau o Gymru yn eu hwynebu. Gallwch weld y cylch gorchwyl llawn yn yr Atodiad.

Yn dibynnu ar argaeledd tystion ac ati, rydym yn bwriadu gwneud y gwaith hwn ar y dyddiadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 26 Chwefror 2024 | Dau banel tystiolaeth lafar |
| 4 Mawrth 2024 | Un panel tystiolaeth lafar |
| 11 Mawrth 2024 | Bore: sesiwn rhanddeiliaid yn y Senedd<br>Prynhawn: sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol |

Hoffem eich gwahodd chi, ac Aelodau eraill o'ch Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 17.49, i fod yn bresennol yn y sesiynau tystiolaeth lafar a gweithgareddau eraill sydd wedi'u cynllunio, ar y dyddiadau uchod ac mewn unrhyw gyfarfodydd eraill lle gallai trafodaethau sylweddol gael eu cynnal fel rhan o'r ymchwiliad. Pe bai hyn o ddiddordeb i chi neu unrhyw un o'ch Aelodau, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau erbyn 31 Ionawr 2024. Byddaf hefyd yn gofyn i'n Clerc gysylltu â'ch Clercod wrth i'r

trefniadau ar gyfer yr ymchwiliad fynd rhagddo ac fel y gellir gwneud yr holl ystyriaethau ymarferol angenrheidiol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Atodiad: Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ddechrau 2022, sef Gwarchod y dyfodol – Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio.
- I ba raddau y mae'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yn rhoi darpariaeth o safon uchel sy'n cefnogi datblygiad plant, yn mynd i'r afael â thlodi plant ac yn cefnogi cyflogaeth rhieni. Pa newidiadau y gallai fod eu hangen i gyflawni'r canlyniadau hyn.
- Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i ehangu ar y 12.5 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i bob plentyn dwy flwydd oed, a rhoi pwyslais ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- I ba raddau y mae digon o ofal plant ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol teuluoedd ledled Cymru, a sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal plant y mae grwpiau demograffig penodol a grwpiau mewn gwahanol rannau o Gymru yn eu hwynebu.
- Pa ddulliau sydd ar gael i integreiddio'r gwaith o ddarparu gofal plant yng Nghymru, a sut y gellir lledaenu arfer gorau yn eang.
- Sut mae pwysau costau byw wedi effeithio ar ddarparwyr a'r gweithlu gofal plant, a pha effeithiau y mae'r rhain wedi'u cael ar y sector.
- Pa wersi y gellir eu dysgu o rannau eraill o'r DU, ac o arfer gorau yn rhyngwladol i wella polisi gofal plant yng Nghymru.
- Sut y mae angen ystyried rhwystrau ariannol a rhwystrau ymarferol wrth ddatblygu polisi gofal plant yn y dyfodol.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Copïau at:
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

07 Chwefror 2024

Annwyl Russell,

Yn ystod fy ymddangosiad yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 17 Ionawr, cytunais i roi manylion am y cyllid camddefnyddio sylweddau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Hon fu'r gyllideb fwyaf heriol ers datganoli, ond serch hynny rwyf wedi blaenoriaethu ein buddsoddiad mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau rheng flaen hanfodol er mwyn sicrhau bod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn parhau i gael mynediad at wasanaethau a chymorth. Fodd bynnag, mae hyn wedi golygu y bu'n rhaid gwneud nifer o benderfyniadau anodd.

Er gwaethaf y gyllideb heriol, rwyf wedi parhau i ddiogelu ein cyllid camddefnyddio sylweddau, ac mae'r cyllid hwnnw, yn gyffredinol, wedi codi i ychydig dros £67m. Rhoddir Cyllid Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau yn uniongyrchol i'n Byrddau Cynllunio Ardal, a bydd hwn yn codi £2m yn 2024/25 i £41m. Bydd y cynnydd hwn o £2m yn ein cyllid yn cael ei ddyrannu i'r dyraniadau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc a chyllid anghenion cymhleth, y ddau yn cynyddu £1m, i £6.25m a £4.5m yn y drefn honno. Yn ogystal â hynny, o fewn y £41m byddwn yn parhau i gefnogi'r defnydd hynod lwyddiannus o buprenorffin (Buvidal) i'w chwistrellu, drwy ddarparu £3m y mae dros hanner ohono yn mynd tuag at gefnogi rhagnodwyr cyfiawnder troseddol yn y gymuned. Mae Byrddau Iechyd yn cael cyllid ar gyfer eu gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau drwy eu llythyrau dyrannu, a bydd hyn yn cynyddu £812k i ychydig dros £22.9m yn 2024-25. Mae manylion y penderfyniadau ariannu hyn i'w gweld yn Atodiad A.

Gofynnodd y pwyllgor am gael manylion unrhyw gymorth a ddarperir gennym ar gyfer Brynawel. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ariannu Brynawel yn uniongyrchol drwy roi cyllid

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

refeniw, gan fod lleoliadau'n cael eu hariannu naill ai gan awdurdodau lleol neu drwy'r £2m sydd wedi ei glustnodi ar gyfer triniaeth breswyl a roddir i Fyrddau Cynllunio Ardal. Mae lleoliadau'n cael eu gwneud, o dan arweiniad dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth, drwy ein fframwaith Rehab Cymru. Fodd bynnag, rwy'n falch o allu dweud ein bod wedi dyfarnu £795,000 o gyllid cyfalaf i Frynawel ym mis Chwefror 2023 ar gyfer ehangu ei gwasanaeth trwy brynu ac adnewyddu eiddo cyfagos.


Yn ogystal â'n cyllid ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, rydym hefyd yn parhau i gefnogi ein Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-Waith. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl sy'n gwella o gamddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl trwy ddarparu cymorth cymheiriaid, ac fe'i hariennir gyda £5.4m yn 2024-25.  Nod y gwasanaeth yw cefnogi hyd at 10,000 o bobl, gan gynnwys 3,000 o bobl ifanc, ledled Cymru rhwng ei ddechrau ym mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2025. Mae'r gwasanaeth hwn yn olynu’r gwasanaeth blaenorol a ariannwyd gan gyllid Ewropeaidd rhwng 2016-2022.

Cyfeiriais at Raglen yr Heddlu ar gyfer Ysgolion Cymru yn y Pwyllgor. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn cael ei hariannu drwy'r gyllideb camddefnyddio sylweddau, ond yn wyneb toriadau posibl i wasanaethau rheng flaen rwyf wedi penderfynu blaenoriaethu ein buddsoddiad camddefnyddio sylweddau mewn modd sy'n sicrhau mynediad at wasanaethau a chymorth hanfodol. O ganlyniad, bu'n rhaid i mi dynnu cyfraniad cyllid Llywodraeth Cymru o £1.98m bob blwyddyn ariannol yn ôl oddi wrth y rhaglen, a hynny o 31 Mawrth eleni. Mae’r sefyllfa o ran ystod o faterion pwysig yn y dirwedd llesiant dysgwyr wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno'r rhaglen. Mae llawer o feysydd bellach yn destunau a fyddai'n cael eu hystyried fel rhan o'r dysgu iechyd a llesiant gorfodol sy'n digwydd yn ysgolion Cymru. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) yn cwmpasu nifer o feysydd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein, a thrais domestig. Bwriedir datblygu mwy o adnoddau i ysgolion ar gyfer llywio dysgu mewn perthynas ag ystod o faterion iechyd a llesiant, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr mewn addysg i sicrhau bod y rhaglen yn darparu'r profiad dysgu mwyaf buddiol posibl.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Heddlu er mwyn gweithio drwy oblygiadau’r ffaith bod cyllid cyfatebol Llywodraeth Cymru wedi ei dynnu yn ôl oddi wrth y rhaglen. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal ein cysylltiadau â'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac mae'r Comisiynwyr hyn yn bartneriaid gwerthfawr.

Rwy'n anfon copïau at Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Atodiad A.

| | 2023–24 | 2024–25 | Newid |
|---|---|---|---|
| Y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau | £39.063m | £41.063m | +£2m |
| Rhaglen yr Heddlu ar gyfer Ysgolion Cymru | £1.980m | £0 | -£1.980m |
| Cyffuriau ac Alcohol* | £1.542m | £1.022m | -£520k |
| Cyfalaf | £2.5m | £2.5m | £0 |
| Cyllid wedi'i glustnodi y Bwrdd Iechyd | £22.102m | £22.912m | +£812k |
| **Cyfanswm cyffredinol** | **£67.187m** | **£67.497m** | **+£312k** |

*Mae'r Gyllideb Cyffuriau ac Alcohol yn cefnogi gwasanaethau a gweithgarwch canolog allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, WEDINOS, Naloxone a gwerthusiadau o MUP a Buvidal.

Jane Hutt AS/MS
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru Bae
Caerdydd, CF99 1SN

07 Chwefror 2024

Annwyl Jenny Rathbone AS,

Diolch ichi am y gwahoddiad i roi tystiolaeth ar 4 Rhagfyr 2023 fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r broses o roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith. Mae'r llythyr hwn yn rhoi'r manylion ychwanegol y mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdanynt.

**Y 11 o Gynrychiolwyr Cymunedol a'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol**

Gweler Atodiad 1 am fanylion rolau ein Cynrychiolwyr Amrywiaeth, gan gynnwys manylion bywgraffyddol, a gwybodaeth ynglŷn â recriwtio.

Mae Cylch Gorchwyl ein Grŵp Atebolrwydd Allanol yn nodi gweledigaeth, diben a gwerthoedd a gydluniwyd ac y cytunwyd arnynt a fydd yn sail i waith y Grŵp.

Fel rhan o'n strwythur llywodraethu, mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu pedwar Fforwm Rhanbarthol ledled Cymru a fydd yn cofnodi lleisiau'r rhai â phrofiad bywyd ac ymateb i anghenion ein pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru.Byddant yn elfen allweddol o'n strwythur llywodraethu ac yn fodd i gysylltu ein Grŵp Atebolrwydd Allanol â'r sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Bydd y Fforymau Rhanbarthol yn trefnu'r wyth rhanbarth Cydlyniant Cymunedol sy'n bodoli eisoes yn bedwar rhanbarth: Gogledd Cymru, Dwyrain Cymru, Canol Cymru, a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. Bydd y Fforymau yn manteisio ar yr ôl troed Cydlyniant Cymunedol sy'n bodoli eisoes a rhaglenni eraill a ariennir drwy grantiau Llywodraeth Cymru a thimau allgymorth sydd eisoes ar waith.

**Meddalwedd Adnabod Wynebau**

Penderfyniad gweithredol i'r heddlu yw'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau yn fyw. Mae plismona yn fater a gedwir yn ôl a'r Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol amdano.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel llywodraeth, rydym yn cydnabod y gall technegol newydd a datblygol chwarae rôl bwysig ym maes plismona a diogelu cymunedau. Mae'n bwysig ystyried goblygiadau'r technolegau hyn, er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi'r budd mwyaf posibl a lleihau eu risgiau posibl i'r eithaf. Dylai unrhyw dechnoleg newydd gael ei defnyddio mewn ffordd gymesur ac ystyriol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i bobl yng Nghymru.

Rydym wedi gofyn i Plismona yng Nghymru am sicrwydd ynglŷn â sut mae'n defnyddio technoleg adnabod wynebau yn fyw a sut mae'n lliniaru'r risgiau, gan gynnwys yr effaith foesegol ar breifatrwydd pobl. Mae wedi rhoi gwybodaeth inni mewn ymateb i'n pryderon, a adlewyrchir yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

Mae hwn yn faes lle y byddwn yn parhau i hyrwyddo'r hawl i breifatrwydd wrth i'n dealltwriaeth o'r technolegau hyn ddatblygu. Hefyd, byddaf yn cyfarfod â Chadeirydd Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref Tŷ'r Arglwyddi ar 16 Ionawr i drafod y materion hyn. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliad i ddeallusrwydd artiffisial yn ddiweddar ac ers hynny wedi lansio ymchwiliad dilynol i ystyried technoleg adnabod wynebau yn fanylach.

Mae ymarfer gweithredol Heddlu De Cymru a rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Rydym wedi darparu rhywfaint o wybodaeth yn Atodiad 2 isod ar sail ein sgyrsiau â Heddlu De Cymru ar y mater hwn, ond efallai y bydd y Pwyllgor am gysylltu â Heddlu De Cymru neu Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yn uniongyrchol am fanylion ynglŷn â sut maent yn defnyddio ac yn monitro technoleg adnabod wynebau yn fyw. Mae manylion gweithredol hefyd ar gael ar wefan Heddlu De Cymru.

Rydym yn cefnogi'r cynnig i greu corff cenedlaethol yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref Tŷ'r Arglwyddi, ac yn croesawu'r ffaith ei fod yn parhau i graffu ar y mater hwn.

**Rhannu arferion da mewn sefydliadau addysgol ledled Cymru**

Defnyddir nifer o ddulliau gwahanol i rannu gwybodaeth am waith addysg Cymru wrth-hiliol, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da. Cyhoeddir holl adnoddau Llywodraeth Cymru i ysgolion a lleoliadau addysg, ynghyd â deunyddiau perthnasol a phriodol a gynhyrchwyd yn allanol, ar Hwb, neu y mae dolenni i Hwb. Mae'r wefan yn cynnig amrywiaeth eang o adnoddau, gan gynnwys deunyddiau i grwpiau dysgwyr gwahanol megis plant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ogystal â deunyddiau gan ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, er enghraifft.

Mae'r adnoddau wedi'u cysylltu â chwilotwr ar-lein yn Hwb ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, er enghraifft pecyn 365 presennol Hanes Pobl Dduon Cymru. Dylai fod yn hawdd dod o hyd iddynt. Mae swyddogion yn ystyried y cyfleoedd i ychwanegu adnoddau newydd a gwahanol, sy'n ddefnyddiol ac yn berthnasol o dan bennawd Cymru Wrth-hiliol.

Mae ein cylchlythyr cenedlaethol, Dysg, yn hygyrch i bob athro ac ymarferydd mewn ysgolion, yn ogystal ag unigolion sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg eraill. Mae enghreifftiau diweddar o arferion gorau, a nodwyd yn Dysg, yn cynnwys lansio ein canllawiau newydd ar gyfer lleoliadau addysg, 'Dathlu a Chyfranogi', i gefnogi plant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr.

Mae Gweinidogion Cymru a swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â'n cysylltiadau â grwpiau cynrychioliadol awdurdodau lleol ac addysg allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Mae swyddogion yn yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus ac Addysg yn mynychu cyfarfodydd bob tymor y grŵp swyddogion Ethnig Lleiafrifol,

Sipsiwn, Roma a Theithwyr yr awdurdodau lleol yn rheolaidd. Rydym hefyd yn ymgysylltu ag athrawon ac ymarferwyr â phrofiad bywyd o hiliaeth ac yn cydgysylltu'n agos iawn â'n rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi rhieni a dysgwyr o gymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol.

Pan fydd materion yn codi i ysgolion, a'u bod yn ceisio canllawiau wedi'u targedu, caiff adnoddau ac enghreifftiau o ymarfer effeithiol eu dosbarthu i bob pennaeth ysgol ac awdurdod lleol. Yn fwyaf diweddar, anfonwyd llythyr ar y cyd at bob ysgol a lleoliad addysg a gynhelir oddi wrth Weinidog y Gymraeg ac Addysg a minnau ar 19 Rhagfyr a oedd yn cynnwys cyngor a gwybodaeth i athrawon ac ymarferwyr i fynd i'r afael â gwrthsemitiaeth ac Islamoffobia. Y nod oedd cefnogi dysgwyr yn ystod unrhyw drafodaethau ynglŷn â'r gwrthdaro presennol rhwng Israel a Gaza a chafodd ei anfon yn sgil trafodaethau â chynrychiolwyr y cymunedau Iddewig a Mwslimaidd yng Nghymru. Ar wahân i hynny, ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at bob coleg AB a phrifysgol yng Nghymru, ar 14 Rhagfyr, yn gofyn am wybodaeth am eu camau gweithredu i fynd i'r afael â gwrthsemitiaeth ac Islamoffobia yn eu lleoliadau.

Ar ôl lansio Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) yn llwyddiannus yn 2022, mae 27,500 o weithwyr proffesiynol addysg wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â DARPL drwy ddigwyddiadau, consortia addysg a phartneriaethau, ymgynghori, canllawiau, a darpariaeth anghydamseredig.

Fodd bynnag, mae'r cyrhaeddiad y tu hwnt i weithgarwch ymgysylltu cychwynnol yn ehangach o lawer. Er enghraifft, roedd digwyddiad yn y gogledd yn ystod yr hydref yn cynnwys arweinwyr haen 2 a oedd yn gyfrifol am dros 400 o ysgolion, gyda'r potensial o gael effaith gadarnhaol ar brofiadau dros 80,000 o ddysgwyr.

Mae campws rhithwir DARPL yn rhoi mynediad i gyfoeth o adnoddau i weithwyr proffesiynol ym maes addysg, gan gynnwys gweminarau byw, deunyddiau anghydamseredig, blogiau a phecynnau cymorth a chymunedau ehangach o ymarfer.

Lansiwyd DARPL Cam 2 yn ystod hydref 2023 ac mae'n cynnwys ffocws craidd ar ledaenu ac ymgysylltu ehangach. Mae'r cam nesaf hwn hefyd yn cyd-fynd â chyhoeddi Adroddiad Sbotolau Comisiynydd Plant Cymru a oedd yn myfyrio'n gadarnhaol:

*'Roedd ysgolion a soniodd am ymwneud ac ymgysylltu â hyfforddiant DARPL (Dysgu Proffesiynol ynghylch Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth) yn gadarnhaol iawn ynghylch eu profiadau at ei gilydd.Dywedodd un arweinydd ysgol fod hynny 'yn wir wedi arwain at newid', a bod yr hyfforddiant wedi effeithio arnyn nhw, a rhoi cyfle iddyn nhw glywed am brofiadau bywyd er mwyn creu newid. (Tachwedd 2023, t 35)*

Roedd pob lle yng nghynhadledd arweinyddiaeth genedlaethol gyntaf DARPL a gynhaliwyd yn 2023 wedi'i lenwi gyda mwy na 250 o arweinwyr addysgol yn bresennol. Roedd mewnbwn gan y prif siaradwyr, gan gynnwys y Fonesig Floella Benjamin, yn cefnogi uwch-arweinwyr i gymryd y camau nesaf ar eu taith arweinyddiaeth wrth-hiliol. Bwriedir cynnal cynhadledd genedlaethol arall yn y gogledd yn 2024, a fydd yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ledaenu ymarfer arweinyddiaeth wrth-hiliol.

Roedd digwyddiadau i uwch-arweinwyr yn ystod tymor yr hydref yn cynnwys cynulleiddfa â mwy na 600 o arweinwyr yng nghynhadledd genedlaethol Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE). Mae DARPL wrthi'n ymgysylltu â rhanbarthau a phartneriaethau eraill er mwyn tynnu sylw at y gwaith cydweithredol estynedig dwfn â GwE i gefnogi datblygiadau cenedlaethol tebyg.

Mae cymuned ymarfer DARPL o waith ymchwil weithredu hydredol yn parhau i ddatblygu. Mae hyn yn cynnig lle heriol a chefnogol i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg. Yn dilyn cynhadledd arweinyddiaeth 2023, cofrestrodd dros 30% o'r cynadleddwyr i gymryd rhan yn ymchwil DARPL sy'n canolbwyntio ar y camau cyntaf a'r seilos ar gyfer newid sylweddol dros Gymru gyfan. Bydd canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ar gael drwy gampws rhithwir DARPL.

Yn ystod Cam 2 DARPL, bu cryn fuddsoddiad eisoes mewn gwaith ymgynghorol gyda nifer o bartneriaid haen ganol, gan gynnwys Cymwysterau Cymru, CBAC, awdurdodau lleol ac Estyn i gefnogi a herio ymarfer arweinyddiaeth wrth-hiliol er mwyn gwella adnoddau a chynaliadwyedd y system ehangach yn sylweddol yn y dyfodol.

Mae diddordeb rhyngwladol cynyddol yn DARPL a'r cynnydd cadarnhaol yng Nghymru mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae DARPL yn cymryd rhan mewn gwaith allgymorth sy'n mynd rhagddo er mwyn helpu i ledaenu ei weithgarwch yn ehangach, gan gynnwys cymryd rhan mewn gwaith cwmpasu a datblygu gyda sawl partner rhyngwladol, gan gynnwys Jamaica, yr UD, Seland Newydd, ac Awstralia.

Mae gwaith i olrhain cyrhaeddiad ac effaith ehangach DARPL yn parhau drwy nifer o ddulliau pwrpasol e.e. data ymgysylltu, mapio effaith, glasbrintiau cenedlaethol ac ati, gyda buddsoddiad manwl i fynd i'r afael â diffygion ymgysylltu penodol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu nifer o fesurau i ddangos effaith y tu hwnt i'r ymgysylltu cychwynnol ac enghreifftiau o'r ffordd y gall model DARPL gefnogi blaenoriaethau dysgu proffesiynol eraill.

**Data Cyfiawnder Troseddol**

Rydym wedi gweld y cynnig gan Brifysgol Caerdydd ar gyfer Arsyllfa Data Cyfiawnder Troseddol i Gymru. Rydym yn ystyried y cynnig hwn yng nghyd-destun ein gwaith ehangach ar ddata cyfiawnder, sy'n cynnwys ffocws ar hil yn y system cyfiawnder troseddol a gwella ein gallu i ddadansoddi yn y maes hwn.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil. Cenhadaeth yr uned hon yw mynd i'r afael â phrinder data hygyrch ynglŷn ag ethnigrwydd a gwella eu hansawdd a'u manylder. Mae'r uned wedi cael ei sefydlu ac mae wedi bod yn mynd i'r afael â'r bylchau o ran hygyrchedd data drwy sicrhau cysondeb o ran dosbarthiadau a therminoleg drwy gydol y broses o ddatblygu polisi ym maes gweithgarwch gwrth-hiliol.

Mae wedi dechrau gwaith rhagarweiniol ar y cyd â grŵp atebolrwydd allanol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol er mwyn datblygu dangosyddion mesur ac ymgorffori profiadau bywyd mewn ymchwil. Bydd gwaith yr uned ar ymchwil a gwerthuso mewn wyth maes polisi gwahanol yn helpu i fynd i'r afael â phrinder data ethnigrwydd sy'n benodol i Gymru. Drwy gydweithio â'r grŵp atebolrwydd allanol ac ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid bydd yr uned yn sicrhau bod data, nid yn unig yn cael eu casglu, ond eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac mewn ffordd hwylus. Mae'r uned yn rhan o is-grŵp data gwrth-hiliaeth y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol fel rhan o'i weithgarwch ymgysylltu a gwaith ar wella mynediad at ddata.

Hefyd, rydym wedi cyflawni gwaith ar ddangosfyrddau cyfiawnder troseddol. Er bod modd dod o hyd i ddata cyfiawnder presennol i Gymru mewn gwahanol ddatganiadau ystadegol cyhoeddedig, mae'r data yn aml yn cael eu rhannu ar draws tablau data agored ac adnoddau daearyddol. Er mwyn sicrhau mwy o werth o'r data cyhoeddedig presennol ar y system gyfiawnder yng Nghymru, mae dadansoddwyr o gyfarwyddiaeth Gwasanaethau

Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn datblygu dangosfyrddau Power BI rhyngweithiol i ddod â data ar gyfiawnder yng Nghymru ynghyd a'u lledaenu.

Cafodd y cyntaf o'r rhain, a oedd yn canolbwyntio ar Gyfiawnder Ieuenctid, ei gyhoeddi ddydd Iau, 31 Awst. Mae'r dangosfwrdd yn dwyn ynghyd ddata sy'n benodol i Gymru o dablau eglurhaol **ystadegau blynyddol Cyfiawnder Ieuenctid, a gyhoeddwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr**.

At hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i fynd ati i nodi gofynion data troseddau a chyfiawnder yng Nghymru. Mae'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi wedi gwneud gwaith i fapio'r data cyfiawnder troseddol presennol a gyhoeddir ar wefannau'r llywodraeth, er mwyn nodi lle mae data wedi'u datgrynhoi ar gael i Gymru a'r meysydd penodol o ddata lle mae data penodol i Gymru ar goll.

Am y tro cyntaf, mae'r gwaith hwn wedi rhoi golwg gynhwysfawr o dirwedd data cyfiawnder troseddol Cymru, sy'n ein galluogi i ddeall yr hyn sydd ar gael yn gliriach a lle mae bylchau y gellid eu llenwi. Mae hyn yn cynnwys mapio'r data sydd ar gael ar droseddau, carchardai a'r gwasanaeth prawf, cyfiawnder ieuenctid a'r gweithlu cyfiawnder troseddol.

Mae'r ymarfer mapio hwn, gan gynnwys y bylchau presennol y gellid eu llenwi yn ein barn ni, wedi cael ei rannu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd wedi cytuno i'w ystyried a rhoi ymateb ar yr hyn sy'n ddichonadwy yn y byrdymor a'r tymor hwy. O ystyried maint y gwaith, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gofyn am ein barn ar y meysydd pwysicaf i ymdrin â nhw ac mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu'r blaenoriaethau canlynol:

- Meysydd lle mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhoi data mewn ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ond nad yw'r data yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn
- Gwell data ar hil ac ethnigrwydd yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Cyfiawnder Troseddol
- Data sy'n ymwneud â'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod a'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid
- Gwella argaeledd a hygyrchedd y data sy'n benodol i Gymru sydd eisoes yn cael eu cyhoeddi, er enghraifft drwy ddangosfyrddau sy'n debyg i'r rhai sydd bellach yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i ystyried y gwaith hwn.

**Plant yn cyfieithu mewn lleoliadau meddygol**

Rwy'n cydnabod pa mor bwysig ydyw ein bod yn cymryd camau i leihau'r achosion hynny lle mae aelodau o'r teulu, gan gynnwys plant, neu unigolion heb eu cofrestru, yn gweithredu fel cyfieithwyr.

Ochr yn ochr â'r argymhelliad gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei adroddiad ‘Cysylltu'r Dotiau’ ar iechyd meddwl ac anghydraddoldebau ac adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar drais ar sail rhywedd ac anghenion menywod sy'n fudwyr – ymchwil ddiweddar a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i Brofiadau Iechyd Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid (Astudiaeth HEAR 2 yng Nghymru) ac adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar argaeledd a digonolrwydd gwasanaethau cyfieithu ieithoedd tramor fel rhan o'n prosiect Integreiddio Mudwyr Cymru – wedi tynnu sylw at yr un broblem. Dros y misoedd sydd i ddod, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithredu ar argymhellion y pwyllgorau a chanfyddiadau'r ddau adroddiad ymchwil ac yn ystyried dichonoldeb cyfeiriadur o gyfieithwyr.

Mae swyddogion hefyd yn ymgysylltu mewn ffyrdd i sicrhau bod mudwyr a'r rhai sy'n ceisio lloches yn deall eu hawl i gael cyfieithydd ar gyfer gwasanaethau, yn cynnwys diweddaru ein gwefan Noddfa y mae modd ei throsi i ddewis iaith ac sy'n defnyddio meddalwedd 'Recite me' sy'n troi testun yn lleferydd.

Comisiynodd Lywodraeth Cymru ymchwil i argaeledd a digonolrwydd gwasanaethau cyfieithu yng Nghymru a ariennir drwy Brosiect Integreiddio Mudwyr Cymru. Gellir gweld yr astudiaeth yma. Mae swyddogion yn cymryd y camau perthnasol sy'n deillio o'r ymchwil hon mewn prosesau llunio polisi er mwyn helpu i leihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gafael ar wasanaethau dehongli a chyfieithu.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu canllawiau ar gyfer gofal sylfaenol a lleoliadau iechyd eraill mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau cyfieithu, gyda'r nod o sicrhau cysondeb a hyrwyddo mynediad teg.

Sefydlwyd Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (GCC) yn 2009 i ddiwallu anghenion dehongli a chyfieithu'r sector cyhoeddus. Mae GCC, sydd wedi cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd ers 2017, yn rhoi mynediad at amrywiaeth eang o gyfieithwyr cofrestredig sy'n cwmpasu tua 120 o ieithoedd, gan gynnwys BSL. Mae Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (GCC) hefyd wedi datblygu hyfforddiant ar-lein newydd i hyrwyddo mynediad at wasanaethau cyfieithu a dehongli. Hefyd: Fel rhan o Brosiect Integreiddio Mudwyr Cymru Llywodraeth Cymru, mae deunyddiau ategol newydd yn cael eu datblygu i hyrwyddo hawl unigolyn i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn (drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau). Gall sefydliadau partner ddefnyddio gwasanaethau ar alw GCC drwy eu cytundeb partner. Mae pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru bellach yn bartneriaid i GCC.

**Cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru ynglŷn â rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith**

Mae cryfhau trefniadau cydweithio ag awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector preifat yn hanfodol. Drwy annog y sectorau hyn i fabwysiadu arferion gwrth-hiliol yn eu sefydliadau bydd hynny'n cyfrannu'n sylweddol at newid cymdeithasol ehangach.

Mae awdurdodau lleol yn annibynnol i raddau helaeth, o ystyried eu hatebolrwydd democrataidd i etholwyr. Fodd bynnag, rwyf wedi cyfarfod ag Arweinwyr Cydraddoleb Cabinet Awdurdodau Lleol bedair gwaith yn ystod y flwyddyn diwethaf. Rwyf hefyd yn parhau i danlinellu pwysigrwydd ymgorffori Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol drwy fforymau sefydledig megis cyfarfodydd Aelodau Cabinet Cydraddoldebau CLlLC, Fforwm Hil Cymru, a chyfarfodydd Partneriaethau Cymdeithasol. At hynny, rwyf wedi bod yn ymweld ag awdurdodau lleol ledled Cymru a chyrhaeddodd Uwchgynhadledd Arweinyddiaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mis Mai 2023 bron bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Rydym yn gwneud defnydd effeithiol o'r holl ffyrdd sydd ar gael i Lywodraeth Cymru er mwyn ymgorffori Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol mewn llywodraeth leol. Un enghraifft yw bod Grantiau Gwella a roddir drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnwys amodau i weithredu nodau a chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn lleol. Mae symiau wedi cael eu hailddyrannu o dan y Grant Gwella i ddyrannu cyllid tuag at fentrau gwrth-hiliaeth.


Mae pob maes polisi yn ymgysylltu â swyddogion cyfatebol mewn awdurdodau lleol mewn ffyrdd penodol. Er enghraifft, mae Gofal Cymdeithasol yn ymgysylltu'n uniongyrchol â thimau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Enghraifft arall yw bod swyddogion polisi ym maes tai yn ymgysylltu â grŵp rhanddeiliaid Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Tai ac

Adfywio sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Caerdydd a CLlLC. Mae gweledigaeth drawslywodraethol benodol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn golygu bod nodau a chamau gweithredu o dan berchenogaeth meysydd polisi priodol, gan eu dwyn yn atebol am y cynnydd a wneir o ran canlyniadau.

Atodaf gofnodion a chamau gweithredu perthnasol cyfarfodydd ag aelodau Cabinet Llywodraeth Leol o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith yn unol â'ch cais.

Hyderaf fod hyn yn ateb cwestiynau'r pwyllgor ac yn rhoi'r eglurder angenrheidiol.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

09 Chwefror 2024

Annwyl Jenny

Diolch ichi am gais y Pwyllgor ar gyfer rhagor o wybodaeth am Gyllideb Ddrafft 2024-25.

Amgaeir ymateb Llywodraeth Cymru i'r cwestiynau hynny.

Yn ystod fy sesiwn graffu, cynigiais fynd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod gwaith yr Unedau Data Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant yn fanylach. Bydd fy swyddogion yn cysylltu â chlerc y pwyllgor i drefnu dyddiad ac amser i hyn ddigwydd.

Yn gywir

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Cyllideb Ddrafft 2024-2025 – Cais am ragor o wybodaeth

### Canlyniadau gwerthusiad Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r tri chynllun peilot ar atal gordewdra yn gynnar ar gyfer plant a theuluoedd

Caiff y prosiectau hyn eu cefnogi drwy bortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae ein strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach' yn cefnogi tri chynllun peilot ar gyfer plant a theuluoedd sy'n cael eu cynnal ar Ynys Môn, ym Merthyr Tudful ac yng Nghaerdydd. Nod y cynlluniau peilot hyn, sydd wedi'u brandio'n PIPYN (Pwysau Iach Plant yng Nghymru) yw lleihau gordewdra yn ystod plentyndod cynnar. Mae'r cynlluniau peilot yn seiliedig ar ymyrraeth o gefnogaeth deuluol un-i -un sydd wedi'i nythu mewn dull gweithredu ehangach sy'n seiliedig ar systemau, ac sy'n ceisio galluogi teuluoedd a'u plant ifanc i fod yn fwy egnïol a bwyta'n fwy iach.

Mae'r ymyrraeth wyth wythnos wedi'i anelu at deuluoedd â phlant ifanc (3 - 7 oed) sy'n ordew neu sydd mewn perygl o fynd yn ordew. Bydd gweithiwr cymorth i deuluoedd yn helpu'r teulu i bennu a chyflawni nodau sy'n anelu at greu amgylchedd sy'n cefnogi eu plentyn i gyrraedd pwysau iach. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â dulliau rhianta, dewisiadau bwyd a chwarae actif. Mae'r nodau wedi'u haddasu at anghenion y teulu penodol. Ond gallent gynnwys helpu'r teulu i lunio cynllun ar gyfer prydau bwyd wythnosol ar gyllideb. Mae'r ymyrraeth hon wedi'i hen sefydlu ym mhob ardal beilot, ac mae cannoedd o deuluoedd yn elwa ar y cymorth hwn hyd yma.

Fel rhan o'r dull system gyfan ehangach, mae arweinwyr y cynlluniau peilot hyn ar gyfer plant a theuluoedd wedi gweithio gyda Sgiliau Maeth am Oes ac ysgolion lleol i sefydlu dosbarthiadau coginio wedi'u hanelu at deuluoedd â phlant ifanc ym mhob un o'r ardaloedd peilot. Mae'r dosbarthiadau hyn yn rhad ac am ddim ac ar gael i bawb yn y gymuned. Ond gall teuluoedd gael eu cyfeirio i fynd i'r dosbarthiadau hyn hefyd, fel rhan o'r cymorth un-i-un.

Mae'r tri Chynllun Peilot ar gyfer Plant a Theuluoedd wedi cyflwyno data dienw i Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w dadansoddi. Mae'r data hynny'n cynnwys y nifer sy'n cymryd rhan, y gweithgareddau a chanlyniadau'r ymyrraeth ar gyfer pwysau iach. Maen nhw hefyd wedi anfon gwybodaeth am weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau peilot, fel y dosbarthiadau coginio. Bydd yr wybodaeth honno'n llunio rhan o adroddiad gwerthuso ehangach sy'n ceisio darparu dealltwriaeth o ddulliau, cynnydd a chanlyniadau'r cynlluniau peilot, er mwyn datblygu system i helpu unigolion gyrraedd pwysau iach.

### Adroddiad interim ar y cynllun peilot incwm sylfaenol

Mae Adroddiad Blynyddol 2023-24 ar y Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, yn barod i'w gyhoeddi ddiwedd mis Chwefror 2024.

**Chwarae Teg**

Mae swyddogion wedi gweithio gydag ymddiriedolwyr Chwarae Teg, a rhanddeiliaid eraill, i leihau effaith cau'r sefydliad. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau Chwarae Teg a ariennir gan Lywodraeth Cymru bellach wedi'u cwblhau neu wedi'u prif ffrydio.

Cylch cynllunio cyllideb 2024-25 fu'r cylch mwyaf heriol yn ystod yr oes hon o ddatganoli. Mae cyfuniad o chwyddiant a phenderfyniadau Llywodraeth y DU wedi golygu bod setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn werth £1.3bn yn llai mewn termau real na'r disgwyl adeg Adolygiad o Wariant 2021. Mae hyn wedi golygu bod angen gwneud llawer o ddewisiadau anodd, sy'n effeithio ar gyllidebau ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y gyllideb a oedd gynt yn cefnogi Chwarae Teg. Cafodd y gyllideb hon ei thorri fel rhan o'r ymarfer cynilo ar draws y Llywodraeth. Nid yw'r gyllideb wedi'i hailddyrannu, ei hailgyfeirio na'i chyfuno ag adnoddau canolog.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydraddoldeb rhywiol, a byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth ac â phartneriaid i wneud y defnydd gorau o'r ymyriadau presennol a'r cyllidebau sydd ar gael, gan gynnwys drwy ein gweithgareddau mewn perthynas â gwaith teg, cyflogadwyedd a chydraddoldeb.

**Dadansoddiad o'r cyllid a roddwyd i gonsortiwm ffoaduriaid Cymru**

Mae Gwasanaeth Noddfa Cymru yn wasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyngor ac eiriolaeth i geiswyr noddfa sy'n byw yng Nghymru. Comisiynwyd y gwasanaeth i ddechrau ym mis Ebrill 2022 ac mae ganddo gontract tan fis Mawrth 2025, a'r posibilrwydd o estyniad am ddwy flynedd arall. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan gonsortiwm dan arweiniad Cyngor Ffoaduriaid Cymru ac yn cynnwys Tîm Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru, Bawso, Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru, Cyfiawnder Lloches, ac Alltudion ar Waith.

Roedd y contract gwreiddiol a gyhoeddwyd am £1.065m rhwng Ebrill 2022-Mawrth 2025. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl gosod y contract roedd yr ymosodiad enfawr ar Wcráin yn golygu bod angen dod o hyd i adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth. Yn 2022-23 a 2023-24 rydym wedi amrywio'r contract i godi gwerth y contract i gyfanswm o tua £1.567m.

Yn 2024-25 rydym yn cydnabod bod angen dybryd o hyd, ond un sy'n lleihau, i roi cymorth i fuddiolwyr Cynlluniau Wcráin, tra bo cynlluniau'r Swyddfa Gartref i ehangu'r gwasgariad o geiswyr lloches i ardaloedd holl awdurdodau lleol Cymru (a chynyddu nifer cyffredinol y ceiswyr lloches yng Nghymru) yn creu angen ychwanegol. O ganlyniad, rydym yn bwriadu darparu codiad pellach o tua £0.145m yn 2024-25, sy'n golygu y bydd gwerth cyffredinol y contract oddeutu £1.712m erbyn mis Mawrth 2025.

Mae'r dyraniadau rhwng partneriaid o fewn consortiwm Gwasanaeth Noddfa Cymru yn fater i bartneriaid y consortiwm.

**Rhaglenni Ffenics a Myfyrio**

Mae *Ffenics* a *Myfyrio* yn rhaglenni y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn eu darparu i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed (er enghraifft, y rhai sydd mewn perygl o droseddu neu eu gwahardd o'r ysgol). Maen nhw'n cael eu cefnogi'n llawn drwy gyllid grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i sicrhau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25.

- Mae *Ffenics* yn rhaglen fwy dwys, i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl, ac mae'n cynnwys 5 diwrnod mewn gorsaf dân a chyfarwyddyd wrth ddefnyddio gweithdrefnau ac offer diffodd tân gwirioneddol i feithrin hunan-barch, gwaith tîm a pharch at eraill. Mae elfennau dosbarth y cwrs yn hyrwyddo amcanion fel gwrth-hiliaeth ac ymwybyddiaeth o seiberfwlio.

- Mae *Myfyrio* yn gwrs undydd llai dwys gyda'r nod o ddargyfeirio plant a phobl ifanc i ffwrdd o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac fel arfer mae'n digwydd mewn lleoliad ysgol (er ei fod hefyd wedi'i gynnal yng Ngharchar EF y Parc ar gyfer plant carcharorion, a oedd yn cynnwys mewnbwn gan y carcharorion hefyd).

Mae'r ddwy raglen yn defnyddio diffoddwyr tân fel modelau rôl, ac i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o bobl mewn awdurdod. Mewn blwyddyn nodweddiadol – mae gan *Myfyrio* tua 3,000 o gyfranogwyr a *Ffenics* tua 500, yn dibynnu ar atgyfeiriadau gan ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu.

**Unedau Data Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant**

**<u>Cyfraniad yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd at benderfyniad cyllidebol</u>**

Rhoddodd yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd ddadansoddiad o'r dystiolaeth sydd ar gael i lywio penderfyniadau cyllidebol ar draws holl nodweddion cydraddoldeb. Rhannwyd hyn â'r holl feysydd polisi i lywio penderfyniadau a'i rannu â'r Cabinet fel crynodeb o'r effeithiau cronnus y bydd Gweinidogion yn eu hwynebu yn yr arbedion cyllidebol presennol wrth lywio penderfyniadau'r Cabinet. Dangosir yr wybodaeth hon yn yr adran ar gyfer Cyd-destun Strategol yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, ac roedd yn cynnwys dadansoddiad o'r amrywiad mewn effaith costau byw a lefelau tlodi, deilliannau addysgol, cyflogaeth, materion iechyd meddwl a throseddau casineb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Y casgliadau cyffredinol a rannwyd ar draws pob maes polisi oedd:

- Y plant hynny sy'n dibynnu ar incwm menywod neu incwm pobl anabl sydd â'r risg fwyaf o ddod yn blant sy'n derbyn gofal a chael cyfleoedd bywyd gwael. Felly, mae'r grwpiau hyn yn wynebu'r perygl mwyaf o doriadau i wasanaethau sy'n atal neu'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cyflogaeth a chyflog, a thlodi.

- Mae pobl sydd â nodweddion croestoriadol o ran bod yn anabl, o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, neu sy'n LHDTC+ sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef unigrwydd a throseddau casineb, ac felly byddai'r toriadau i wasanaethau iechyd meddwl yn cael yr effaith fwyaf arnyn nhw (yn ogystal â phobl anabl yn gyffredinol, menywod beichiog, a phlant a phobl ifanc).

**Rôl yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn fwy cyffredinol**

Mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn rhan o'r Is-adran Tystiolaeth a Chymorth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant, ochr yn ochr â'r tîm tystiolaeth ar gyfer Plant a Threchu Tlodi.

Mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn cynnwys Dadansoddwyr y Llywodraeth yn bennaf (gan gynnwys ymchwilwyr cymdeithasol ac ystadegwyr) a nifer fach o swyddogion cymorth polisi ac ymgysylltu sy'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi i sicrhau y bydd y dystiolaeth yn helpu i lywio penderfyniadau polisi.

Diben yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yw gwella argaeledd, ansawdd, gronynnedd a hygyrchedd tystiolaeth ar gyfer cydraddoldeb, er mwyn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ledled Cymru i ddatblygu polisïau sy'n seiliedig ar wybodaeth well a mesur eu heffaith. Mae'r timau'n defnyddio gwahanol ffynonellau tystiolaeth i ateb cwestiynau tystiolaeth penodol.

Un o nodau allweddol yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yw dylanwadu, gan gefnogi a herio polisïau a dadansoddwyr i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i dystiolaeth cydraddoldeb. Mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn gweithio'n agos gyda dadansoddwyr eraill ar draws Llywodraeth Cymru, adrannau'r DU (e.e. y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Canolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth yr Alban) a'r byd academaidd.

Mae'r tair Uned benodol sy'n rhan o'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd (yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil, a'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd) yn gweithio ar y cyd ar lawer o brosiectau. Bydd y rhan fwyaf o'u gwaith, sy'n drawsbynciol yn fwriadol ac sy'n ceisio gwella'r sylfaen dystiolaeth ar draws pob portffolio polisi a buddion, yn ymestyn yn ehangach i'r sector cyhoeddus. Er bod yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn darparu tystiolaeth ychwanegol o'r ffynonellau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cydraddoldeb, er enghraifft Cyfrifiad 2021, mae llawer o'r prosiectau yn rhai tymor hir ac yn anelu at wneud gwelliannau sylfaenol i ansawdd ac argaeledd tystiolaeth cydraddoldeb.

Yn benodol, mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn nodi sut y byddwn yn mesur effaith ac effeithiolrwydd cynlluniau gweithredu allweddol ar gyfer cydraddoldeb (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, cynllun gweithredu LHDTC+, a

chynllun gweithredu Tasglu Hawliau Pobl Anabl) ac yn datblygu ffynonellau data newydd fel y gallwn ddeall a yw'r cynlluniau'n cael effaith ar fywydau pobl.

Mae enghreifftiau o'r modd y mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd wedi cyflwyno tystiolaeth ychwanegol yn cynnwys:

- Datblygu dangosfwrdd o wybodaeth ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan ddod â'r holl dystiolaeth ar gyfer ethnigrwydd ynghyd mewn un lle.
- Dadansoddiad ychwanegol o'r Cyfrifiad sy'n rhoi dadansoddiad manwl o'r holl ganlyniadau allweddol mewn bywyd yn ôl ethnigrwydd sy'n ganolog i fesur effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
- Dadansoddiad ychwanegol o'r Cyfrifiad sy'n rhoi dadansoddiad manwl ar bobl anabl sydd wedi bod yn allweddol o ran nodi gwahaniaethau yn y canlyniadau a llywio blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu ar Hawliau Pobl Anabl.
- Arwain ar fesur y Fframwaith Integreiddio Mudwyr (Fframwaith Integreiddio Mudwyr | LLYW. CYMRU), gan gynnwys nodi ffynonellau data ar lefel Cymru i fesur canlyniadau ar gyfer mudwyr.
- Cyhoeddi pennod 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal' yn Adroddiad Llesiant Cymru 2023 sy'n rhoi sylwebaeth ar y cynnydd a wnaed tuag at y dangosyddion cenedlaethol mewn perthynas â chydraddoldeb. Darparu arweiniad ac adolygiad o'r is-adroddiad ar ethnigrwydd.
- Asesiad macro o'r dystiolaeth o effaith penderfyniadau cyllidebol ar grwpiau cydraddoldeb ar gyfer y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth a'r Cabinet i gefnogi'r Asesiad Effaith Integredig Strategol.
- Darparu tystiolaeth i lunio blaenoriaethau a chytuno arnynt ar gyfer y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r cynllun gweithredu ar sail rhywedd.

Mae enghreifftiau o brosiectau tymor hwy a fydd yn gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gydraddoldeb yn sylfaenol wrth symud ymlaen yn cynnwys, er enghraifft:

- Edrych ar opsiynau i hybu'r sampl ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru fel y gellir dadansoddi mesurau Llesiant Cenedlaethol yn ôl nodweddion cydraddoldeb.
- Gweithio i sicrhau mynediad i ddata Llywodraeth y DU i ganiatáu dadansoddiad o'r bwlch cyflog mwy gronynnog ar gyfer ethnigrwydd, anabledd a rhywedd.
- Cyhoeddi canlyniadau arolwg o nodweddion cydraddoldeb aelodau'r bwrdd o Gyrff y Sector Cyhoeddus ac adolygiad llenyddiaeth i ddylanwadu ar arweinyddiaeth ar draws cyrff y sector cyhoeddus.
- Nodi sut y gellir casglu gwybodaeth i fesur y model cymdeithasol o anabledd, fel y gall polisi yn y dyfodol ganolbwyntio ar rwystrau.
- Ymchwil i ddeall yr angen am fesurau ar gyfer rhyw a rhywedd yng Nghymru a fydd yn cefnogi deall effaith canlyniadau ar rywedd ar draws pob polisi.
- Canllawiau ar sut y gellir datblygu ymchwil a thystiolaeth ar y cyd.
- Canllawiau ar sut y gellir adrodd ar ymchwil ac ystadegau mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â dulliau gwrth-hiliol a dulliau model cymdeithasol.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r
Prif Chwip

30 Ionawr 2024

Annwyl Jane,

Cyllideb Ddrafft 2024-25 – Cais am ragor o wybodaeth

Diolch am roi tystiolaeth ar 22 Ionawr fel rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Yn y sesiwn, fe wnaethoch chi gytuno i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch nifer o feysydd. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r canlynol:

- Manylion canlyniadau gwerthusiad Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r tri chynllun peilot ar gyfer **atal gordewdra yn gynnar ymysg plant a theuluoedd,** sy'n cynnwys cefnogi teuluoedd gyda sgiliau coginio yn Ynys Môn, Merthyr Tudful a Chaerdydd.

- Copi o'r adroddiad interim ar y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

- Diweddariad ar y cynnydd a wnaed gyda rhanddeiliaid a swyddogion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymgorffori'r gwaith a wnaed gan Chwarae Teg. A allwch egluro sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ailddyrannu'r arian a ddynodwyd yn flaenorol ar gyfer Chwarae Teg a chadarnhau a yw'r arian wedi mynd i gyfeiriad sefydliadau eraill ym maes tegwch rhwng y rhywiau, ynteu a yw wedi cael ei ddychwelyd i gronfa gyllideb ganolog? Os yr ail yw hi, a allwch gadarnhau a fydd y cyllid o £366,000 a ddyrannwyd yn flaenorol i Chwarae Teg ar gael i sefydliadau eraill ym maes tegwch rhwng y rhywiau yn ystod y flwyddyn?

- Dadansoddiad o'r cyllid a roddir i gonsortiwm ffoaduriaid Cymru.

- Manylion rhaglenni Ffenics ac Adlewyrchu

Unedau data tystiolaeth:

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch chi ymroi i ddarparu i'r Pwyllgor ragor o enghreifftiau o sut mae data o'r unedau data Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant wedi cael eu defnyddio i nodi'r grwpiau a'r unigolion y mae penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru wedi effeithio arnynt fwyaf. Fe wnaethoch hefyd nodi y byddech yn fodlon dod i gyfarfod yn y dyfodol i drafod eu gwaith yn fanylach. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â'r Tîm Clercio i ddod o hyd i slot cyfleus i hyn ddigwydd.

O ystyried yr amserlenni ar gyfer adrodd ar y Gyllideb Ddrafft, byddem yn ddiolchgar o gael yr wybodaeth hon erbyn diwedd y dydd 2 Chwefror 2024 fan bellaf.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 4PH

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

12 Chwefror 2024

Annwyl Jenny,

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw chi a'r pwyllgor at lansiad yr ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r broses 'Gweithio i Wella' a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei lansio ar 12 Chwefror 2024 ac yn cau ar 6 Mai 2024.

https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-broses-gweithio-i-wella

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/50/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

16 Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhelir ar 20 Chwefror 2024.

Fi fydd yn cadeirio'r cyfarfod, sef cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ers ailsefydlu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Rwy'n rhagweld y bydd y cyfarfod rhithwir hwn yn gyfle i drafod cysylltiadau rhynglywodraethol yn eu cyfanrwydd yn sgil dychweliad Gweinidogion Gogledd Iwerddon, yn ogystal â deddfwriaeth y DU a chydlyniant cymunedol. Byddaf hefyd yn tynnu sylw at yr adroddiad terfynol diweddar gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Equality and Social Justice Committee Evidence Submission

Dr David J. Dallimore

# 1 Preamble

1.1 I would firstly like to highlight the difficulty in the Committee's focus on 'childcare' as opposed to the broader concept of early years services and its relationship to poverty and social justice.

1.2 Early childhood education and care (ECEC) is the term used internationally to describe any regulated arrangement that provides education, learning and care for children from birth to compulsory primary school age. In Wales, to reflect our focus on children, their rights, and our commitment to play, stakeholders working with Welsh Government have agreed to use the term early childhood play, learning and care' (ECPLC).

1.3 A focus only on the 'childcare' element within ECPLC can be viewed as reductive in that it directs public policy and funding towards primarily supporting parental employment. This may assist in reducing family poverty in the short-term, but as a policy in isolation it has been shown to lead towards the provision of low-cost, low-quality care that does little to enhance children's development and their longer-term resilience to poverty. There is evidence that in some circumstances poor quality care may do more damage to children than an absence of provision. While good quality ECPLC will undoubtedly support parents to work, employment opportunity for parents should be a by-product, not a primary outcome.

# 2 The extent to which childcare provision in Wales provides high-quality provision which supports child development, tackles child poverty and supports parental employment. What changes might be needed to deliver these outcomes.

2.1 There is now a large body of evidence that high-quality ECPLC provision supports child development, tackles child poverty and supports parental employment. However, measuring the quality of ECPLC services is difficult but, as set out in this Research Briefing there are three key areas of quality that require consideration.

2.2 Firstly, **an entitlement to universal rather than targeted ECPLC provision from birth to the start of compulsory schooling is preferable**. The Welsh Labour Government has set out an ambition to work towards this as part of its Cooperation Agreement with Plaid Cymru, and the focus on expanding towards universal provision through Flying Start is to be welcomed. Developing Flying Start childcare as a universal service available to all parents of two and three year olds in Wales, complementing or including the existing free early

education entitlement to provide ECPLC, meets the developmental needs of the most vulnerable children, while also meeting the needs of their, and other, working parents. Making Flying Start universal also increases the benefit to children living in poverty. Research has shown that inclusive provision, with children from a range of social backgrounds, has greater benefits for the most disadvantaged children. To achieve this, the way in which Flying Start is delivered requires some further streamlining and additional flexibility if it is to meet the needs of all, rather than just those in deprived areas. Flexibility is what working parents increasingly need, and therefore the current 'fixed' offer of a 2 ½ hour session each day needs to change. This requires local authorities to support Flying Start providers to change the way they work to become more flexible, and be able to deliver services that at least match the length of the school day. As Flying Start ECPLC is rolled out in all areas, local authorities should be able to fulfil their current childcare market-management and early education duties by planning delivery and commissioning the number and types of services that meet local needs. This includes the provision of Welsh-medium and bilingual ECPLC, accessible services for disabled children and, in the longer term, services that are able to support parents working shifts or unusual hours.

2.3 Secondly, **quality services require public policies to be integrated with adequate and equitable funding**. In Wales, despite terminology changing to ECPLC, Ministerial responsibility for early years education is still separated from early years care and play even though it has been accepted that for young children the concepts of learning play and care are interdependent and indivisible. Whilst there is some welcome integrated work between the ESTYN and CIW inspectorates, there are still different legal requirements for learning and care settings. This embeds the view that services for children under 3 are 'care', designed to support parental employment, while, at age 3 years, children can access the part-time Foundation Phase which is categorised as 'education', and is more generously funded. Furthermore, because local authorities only have a duty to secure the delivery of a minimum of 10 hours a week of Foundation Phase early learning, 3 and 4 year old children often attend a mix of settings across a day or a week making life more difficult for working parents.

2.4 Thirdly, **raising the quality of the ECPLC workforce** is critical. One of the main findings from UK research over the last two decades has been that higher quality settings are those in which staff have higher qualifications - usually defined as relevant degree level or above. Even when most staff in an ECPLC setting are not highly qualified, they benefit from the presence of a highly-trained colleague. In Wales, the language skills of practitioners are also critical in delivering Welsh-medium and bilingual ECPLC. While there have been significant efforts by Welsh Government and sector organisations to address workforce issues through the refreshed workforce plan, low pay across the sector remains the biggest barrier to recruitment and retention.

## 3 To what extent there is sufficient childcare available to meet the varying needs of families across Wales, and how inequalities in access to childcare faced by particular demographic groups and across different parts of Wales can be addressed.

3.1 While 'sufficiency' of childcare is often a nebulous term, according to a review of recent Childcare Sufficiency Assessments undertaken by Local Authorities many areas of Wales report having enough childcare to meet the reported demands of parents. However, more objective data shows large inconsistencies in the number of registered childcare places available in different parts of Wales (as illustrated in the appendix of this Briefing Paper). As well as regional differences, there is a long-standing correlation observed between deprivation and childcare places, where families and children living in the least-advantaged areas often have limited access to registered childcare services.

3.2 Despite some investment, there has been very little change in the overall number of registered places (relative to the population of children) since data was first collated in the early 2000's. There have been changes in the types of services available, with a precipitous drop in the number of childminders - although this has been off-set against increases in full daycare and the conversion of part-time sessional care to full daycare. Whist availability of settings and places varies across Wales, most evidence suggests that it is less of a barrier to accessing ECPLC services than funding issues.

3.3 However, there is a broader issue that is often ignored by policy makers in that formal childcare is only used by minority of parents in Wales, with most parents choosing informal care, which is usually provided by relatives and grandparents in particular. Research in 2016 found that rates of informal care are higher in Wales than in other parts of the UK, but that use varies widely. In turn, this has been shown to correlate with the demand and therefore supply of formal care services. In areas where use of informal care is more common - and therefore there are fewer formal care services - parents without access to informal care are considerably disadvantaged.

## 4 How childcare providers and the workforce have been impacted by cost-of-living pressures, and what effects these have had on the sector.

4.1 A survey undertaken by Early Years Wales in December 2023, with 156 providers of registered ECPLC services, presents a concerning picture of the precarious situation in which many providers now find themselves. Inflation and the uplift in the National Living Wage is increasing costs, while income is restricted by the £5 per hour rate of the Welsh Government's Childcare Offer.

*We are unable to increase our fees to parents as we are bound by the £5 an hour rate for the childcare offer. This has meant that our income has remained stable*

*whilst our costs have increased dramatically over the last 2 years. This is not sustainable and the next increase in minimum wage will have a further impact. We are not sure how we are going to make ends meet and survive.*

*Full daycare provider, Cardiff*

4.2 The survey found that among a geographically representative and diverse sample of provider types, 83% said that the uplift in the Living Wage was unaffordable within their current business model. As a result, many providers said that they were considering how to cover these costs including reducing staff ratios (and potentially quality) and restricting how many Childcare Offer funded places they could offer.

*We will have to reduce the amount of staff and increase the fees past (sic) onto parents. We will also have to restrict and reduce the amount of Childcare Offer children accessing our setting as it doesn't cover the costs.*

*Full daycare provider, Flintshire*

4.3 To cope with the uplift, 87% of providers surveyed said that they would need to increase their fees to parents by an average of £0.75 per hour, while they also needed an increase in the Childcare Offer rate to an average of £6.98 per hour in order to remain sustainable. Given the current pressures, 65% of providers surveyed said that they would only be sustainable for 12 months with their current business model and a further 21% for up to 24 months.

*Children numbers have only just started to increase since Covid but we are finding more parents only want to start when they are entitled to receive funding.  The current funding level no longer covers essential running costs and has not for a number of years.  The minimum wage has gone up each year but funding has not - staff moral is low and we have lost a few staff who have left to pursue an altogether different career outside of childcare/education which has better pay.*

*Full daycare provider, Denbighshire*

4.4 By introducing the Childcare Offer, Welsh Government has (as foreseen here) disrupted the business model for most childcare providers. Because of regulated ratios, settings were often sustainable by cross-subsidising places. 3 and 4 year old children, who require fewer staff, kept prices lower for younger children who require higher staff ratios. With the Childcare Offer rate set by government, this is no longer an option and, unless the rate increases in line with costs, settings will have no choice but to increase fees for younger children or restrict the number of Childcare Offer funded places if they are to remain viable.

## 5 What lessons can be learnt from other parts of the UK and international best practice to improve childcare policy in Wales.

5.1 Funding for ECPLC needs to change if it is to become a universally accessible

service. Ideally, all state funding for care should be pooled to create a funding system that is simple, fair and affordable to parents (with capped means-testing) and fair to providers from all sectors. The current UK devolution settlement makes this difficult, but with a change of government in Westminster likely this year, and with similar conversations happening across the UK, there may be an opportunity to coordinate change.

5.2 As the Committee has discussed previously, a fairer funding system exists in other countries including Sweden - where nursery school costs are means-tested at 3% of family income for the first child, reduce with subsequent children and are additionally capped. All providers – public and non-maintained - receive a subsidy for each child that is sufficient to cover all costs and is reviewed monthly by the municipality. In Denmark, the price of ECEC to parents is capped at 25% of the price of services, while in Norway, maximum fees are capped by the government.

5.3 A comparable approach to funding was proposed in Scotland by The Commission for Childcare Reform. It proposed three levels of funding for services; a core element of 600 hours per year for three and four year olds in term time that is universally available and free of charge; a middle element that provides up to 50 hours of state-subsidised, but means-tested 'affordable' childcare for working parents (including the 30 hours of term time provision for three and four year olds) and a final element of non-subsidised but regulated provision over and above the 50 hours of free or subsidised childcare. This model is similar to that in place in Wales, but focuses on capped costs for market-led provision, with the state funding any gap in income. Calculations based on the costs of existing provision in Scotland (which are not dissimilar to Wales) proposed a cap of around 10% of net household income as the proportion of childcare costs that any family would pay towards – covering up to 50 hours of childcare per week.

## 6 How financial and practical barriers need to be considered in developing future childcare policy.

6.1 Recent reports by Oxfam Cymru / Make Care Fair Coalition and by the Bevan Foundation / Joseph Rowntree have made important links between childcare costs and poverty. However, much of this evidence is focused on issues of childcare costs for parents rather than examining ECPLC holistically. International evidence is clear, however, that by making childcare affordable for working parents without an investment in high quality services, environments can be created that can be harmful to children. Wales' groundbreaking commitment to children's rights should be central to how ECPLC policy develops. As stated previously, while good quality ECPLC will support parents to work, employment opportunity for parents should be a by-product but not the primary outcome.

6.2 Over the longer-term, I would argue that the government's priority should be on funding and developing institutions in which early learning, play, care and family

services are commissioned by the state rather than relying on cash transactions between the state and families in the form of vouchers, tax credits or reliefs. Institutions such as Flying Start centres, Integrated Centres and Community-Focused Schools are more likely to serve the wider needs of children and their families and achieve broader social policy objectives. They can also be more sustainable as bringing local people together, promoting relationships and attachments that underpin flourishing lives are more likely to command enduring popular support. This does not mean that we need to lose the current plurality of provision, but that all provision must be adequately funded and supported to ensure that children receive only high quality care. This requires settings that are staffed by qualified and well-paid practitioners; that are able to meet the needs of all children in their communities through inclusive practice; and offer the flexibility that enables parents to be economically active.

6.3 Many of the complexities of current ECPLC policy are unlikely to be resolved whilst there are competing policy objectives. Providing low-cost care for young children that enables their parents to work may be politically expedient but is unlikely to provide the long-term benefits that we know can be gained from high quality early childhood services. Supporting early child development through high quality ECPLC has been shown to drive success in school and improve later life chances. It also supports parents to work. Birth to age five is a critical time to shape future productivity when the brain develops rapidly to build the foundation of cognitive skills alongside attentiveness, motivation, self-control and sociability. Yet, the sector best able to improve long-term life chances, reduce poverty and increase social mobility is poorly regarded and under-funded. Without a clarity of purpose around ECPLC policy in Wales, it will not be possible to resolve with any coherence, issues of delivery and funding.

**Senedd Cymru: Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Gofal Plant - ymholiad dilynol i ofal plant a chyflogaeth rhieni**

Tystiolaeth ysgrifenedig ar ran y bartneriaeth **CWLWM.**

Mae 'Cwlwm' yn uno pum sefydliad blaenllaw gofal plant Cymru i ddarparu gwasanaeth integredig dwyieithog fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer plant a theuluoedd ledled Cymru.

Y sefydliadau yw: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru a Pacey Cymru.

**Pa gynnydd ydych chi wedi ei weld yn cael ei wneud wrth weithredu argymhellion y Pwyllgor o 2022?**

| | |
|---|---|
| Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datgan yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni newydd | Gwelwn fod yr heriau sy'n ymwneud â dealltwriaeth rhieni o'r cymorth sydd ar gael i rieni yn parhau. Mae ehangu mynediad i'r rhai mewn addysg yn gam cadarnhaol ymlaen o ran ehangu mynediad a chefnogi rhagor o blant a theuluoedd.<br><br>Tystiolaeth o hyn yw'r ffaith gafodd dros £16m o gapasiti y Cynnig Gofal Plant ei ail ddosbarthu i'r gyllideb frys yn haf 2023. Gan dybio bod rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer capasiti yn y gyllideb hon yn gywir, mae gwahaniaeth sylweddol o ran argaeledd cyllid a nifer y rhieni sy'n gwneud defnydd ohono. Bydd rhywfaint o hyn yn ganlyniad i ddewis rhieni, ond byddem yn awgrymu bod hyn yn deillio o ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system aml-haenog.<br><br>Mae atebion posibl yn cynnwys symleiddio'r system cyllido gofal plant o safbwynt rhieni, cynyddu parhad y cyllid a pharhad y darparwyr gwasanaethau (yn amodol ar ddarpariaeth foddhaol o safbwynt ansawdd / Estyn / CIW) er budd y plentyn. Ni all pob teulu gael mynediad at yr holl systemau hyn a ariennir ar hyn o bryd. Nid yw pob teulu yn gymwys ar gyfer pob elfen.<br><br>Ers cyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol yn 2022, mae'r daith i rieni yn fwy cymhleth a gall gynnwys:<br>• Tâl mamolaeth / tadolaeth statudol hyd at 12 mis oed (yn dibynnu ar amgylchiadau teuluol),<br>• Mynediad i Dechrau'n Deg yn 2 oed (wedi'i dargedu a'i ariannu),<br>• Trosglwyddo i'r Cynnig Gofal Plant (gyda chyllid addysg gynnar neu heb ei ariannu, yn dibynnu ar amgylchiadau teuluol. Gellir darparu'r elfen addysg yn yr ysgol neu mewn lleoliad nas cynhelir gyda'r elfen gofal plant yn cael ei darparu gan leoliadau nas cynhelir), |

| | |
|---|---|
| | • Darpariaeth addysg lawn amser (yn ystod y tymor) o'r tymor yn dilyn pen-blwydd yn 3 oed (gall fod yn yr ysgol neu mewn lleoliad nas cynhelir). |
| Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r bwlch gofal plant rhwng diwedd absenoldeb mamolaeth a chymhwystra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Dylai hyn gynnwys amserlenni enghreifftiol, a gwerthusiad o'r ffactorau ariannol ac ymarferol y byddai angen eu hystyried wrth fynd i'r afael â'r bwlch hwn | Mae'r dull graddol y rhoddir y mynediad wedi'i ariannu i blant 2 oed ar waith yn bragmatig; fodd bynnag bydd yn dal i adael teuluoedd heb fynediad at wasanaeth wedi'i ariannu am ychydig flynyddoedd i ddod. Cyflawnir yr ehangiad gofal plant ar gyfer plant dwy oed trwy ehangu Dechrau'n Deg. Mae hyn wedi creu heriau o fewn y system ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol.<br><br>Rhaid nodi hyn gan fod yr argymhelliad yn cynnwys cydnabod yr ymrwymiad hwn yn y cytundeb cydweithredu. Hyd y gwyddom, ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud ar gau'r bwlch rhwng cymorth mamolaeth a'r cynnig gofal plant yn yr ardaloedd lle nad oes ehangiad o'r cynllun Dechrau'n Deg. Ni fu trafodaeth fanwl ar unrhyw gymorth a ariennir i deuluoedd sy'n gweithio (y tu hwnt i'r cynnig gofal plant sy'n rhydd o dreth) rhwng tâl mamolaeth a 2 oed.<br><br>Byddai'r llinell amser ar gyfer darpariaeth gofal plant a ariennir (hyd yn oed os yw ar sail prawf modd fel yn yr Alban) yn gam cadarnhaol i gefnogi plant o aelwydydd incwm isel a byddai'n fuddsoddiad i iechyd, cynnydd academaidd a chanlyniadau gydol oes cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.<br><br>Pe bai'r model Dechrau'n Deg yn parhau, byddai'n ddefnyddiol i barhau i gynyddu mynediad i ddarparwyr gwasanaethau a symleiddio'r broses asesu ar lefel awdurdod lleol.<br><br>Byddai asesu a ellir ymestyn y mynediad hwn tuag at ddiwedd y cyfnod mamolaeth yn ddefnyddiol wrth wneud y mwyaf o effaith y gefnogaeth i'r plentyn ac i deuluoedd sy'n gweithio. Dylai unrhyw asesiad gynnwys y mesurau, y cyllid a'r capasiti sydd eu hangen i roi'r strwythur hwn ar waith yng Nghymru a chynnwys pob darparwr gofal plant ar lefel cyfartal. |
| Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r meini prawf | Fel y nodwyd yn flaenorol yn ein hymateb i argymhelliad 2, ers cyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol yn 2022, mae ehangu'r meini prawf cymhwysedd i gynnwys mynediad at deuluoedd sy'n ymgymryd ag addysg bellach yn gam i'w groesawu.<br><br>Mae argaeledd gofal plant ar adegau/ amserau anghymdeithasol ac ar gyfer gwaith shifft yn dal i fod yn gyfyngedig ar draws y sector. Mae'r model cyllido |

| | |
|---|---|
| cymhwysedd yn y Cynnig Gofal Plant i'w gwneud yn haws i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, megis gwaith ansicr, gwaith shifftiau neu waith ar gontractau dim oriau, i gael mynediad at ddarpariaeth | presennol a'r gyfradd talu yn atal hyn rhag newid. Yn ddealladwy, o safbwynt y darparwyr gofal plant mae staffio oriau annodweddiadol yn dod ar gostau cynyddol (oriau gwrthgymdeithasol) a diffyg argaeledd gweithlu sy'n barod i weithio yn yr oriau hyn (mae'r gweithlu yn cynnwys nifer uchel o rieni â phlant eu hunain yn yr ysgol sy'n chwilio am waith o amgylch eu cyfrifoldebau gofal eu hunain); yn ogystal â'r angen i sicrhau bod cymarebau staffio gofynnol yn cael eu bodloni a bod cyfleusterau ychwanegol yn cael eu darparu i ddiwallu'r gwahanol anghenion - yn enwedig os bydd plant yn derbyn gofal dros nos.<br><br>Rydym hefyd yn codi'r pwynt bod y sectorau sy'n gofyn i staff weithio oriau annodweddiadol, i gylchdroi shifftiau a gweithio contractau 'sero awr' yn aml ymhlith rhai o rolau'r gweithlu sy'n derbyn y cyflog lleiaf. A oes angen i gyflogwyr wneud cyfraniad ariannol i hwyluso ehangu'r cynnig a ariennir gan y llywodraeth?<br>Yn syml, ni fydd cynnig y Cynnig Gofal Plant i bawb yn gynhwysol yn sicrhau bod y ddarpariaeth â'r capasiti i fod ar gael i bawb, na'i fod ar gael ledled Cymru. |
| Argymhelliad 4.<br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei hymateb yn nodi ei chynlluniau i gryfhau canllawiau a deddfwriaeth i sicrhau darpariaeth well, fwy cyson o ysgolion bro ledled Cymru | Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi cefnogi Llywodraeth Cymru i ddiweddaru'r canllawiau Ysgolion Bro i sicrhau bod manteision clybiau gofal plant all ysgol mewn lleoliadau ysgol yn cael eu hamlygu; bydd hyn yn cynnwys astudiaeth achos i ddangos manteision cydweithio.<br><br>Un mater y mae angen mynd i'r afael ag ef yw'r dull adennill costau y mae ysgolion yn ei ddefnyddio wrth gyfrifo rhent a defnydd cyfleustodau. Yn dilyn cais am wybodaeth ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, cyflwynodd CWLWM bapur i swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2022 ar leoliadau yn y gymuned a sut mae effeithiau rhent uchel o fewn adeiladau ysgolion yn effeithio ar gynaliadwyedd y sectorau gofal plant a gwaith chwarae .<br><br>Mae rhai lleoliadau nas cynhelir o fewn ysgolion yn dod at ddiwedd cytundebau aml-flwyddyn nawr yn poeni am y cytundebau newydd y maent yn eu derbyn, gan weld cynnydd mawr yn eu costau yn dilyn heriau i gyllidebau ysgolion a chynnydd mewn costau cyfleustodau.<br><br>A allai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir am y budd cymunedol a beth ddylai ystadau ysgolion canolbwyntio arno a'u hystyried. Rhaid deall nad |

| | |
|---|---|
| | yw dulliau adennill costau llawn bob amser yn fforddiadwy i ddarparwyr ac y dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r budd y mae gofal plant fforddiadwy o ansawdd da yn ei gynnig i'w disgyblion a'u teuluoedd. Gallent awgrymu y dylid ystyried gostyngiad x% i'r dull adennill costau llawn, yn enwedig lle mae'r lleoliadau nas cynhelir a gofal plant all ysgol yn cynnig canolfan 'un alwad' i rieni ar gyfer gofal plant ac addysg ar draws gwahanol ddarparwyr ar un safle integredig.<br><br>Mae pryder hefyd am sefydlogrwydd hirdymor lleoliadau nas cynhelir sy'n darparu eu gwasanaeth o adeiladau ysgol. Yn aml, anogir y lleoliadau i ddefnyddio'r ystafell ddosbarth 'wag' yn yr ysgol os yw/pan fydd yr ysgol islaw'r capasiti, ond unwaith y bydd niferoedd derbyn yr ysgol yn cynyddu, gall y lleoliadau ganfod bod angen iddynt ddod o hyd i gartref amgen addas ar fyr rybudd.<br><br>• Lleolir 63% o'r holl Glybiau Gofal Plant All Ysgol ar safle ysgol (CPCKC)<br>• Lleolir 82% o Glybiau Gofal Plant All Ysgol ar safle ysgol (CPCKC)<br>• Mae gan 306 aelod-lleoliad BCC gyfeiriad ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys gofal sesiynol, gofal dydd llawn a/neu clybiau all ysgol a chofrestrir gan BCC.<br>• Allan o'r 306 mae yna 105 grŵp sesiynol BCC sydd â chyfeiriad ysgol.<br>• Yn ystod 2022-23 roedd 196 Cylch Meithrin yn weithredol ar dir ysgol gyfrwng Cymraeg.<br><br>Gwnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs gyflwyniad yn rhan o gyfarfod cydlynwyr yr ysgolion bro Cymru gyfan, i hyrwyddo manteision Clybiau Gofal Plant All Ysgol ar safleoedd ysgolion a sut y gallent gefnogi ysgolion i ddatblygu clwb.<br><br>Mae gweithio gyda sgel yr economi , a chael ysgolion bro sydd â darpariaeth ar gyfer gofal plant cofleidiol ac sy'n gallu bodloni'r dewisiadau iaith rhieni yn haeddu cefnogaeth. |
| Argymhelliad 5.<br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei hymateb | Gweler ein hymateb blaenorol i Argymhelliad 4.<br>Noda Mudiad Meithrin fod ei gynllun Sefydlu a Symud yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, gan |

| | |
|---|---|
| yn nodi ei chynlluniau i sicrhau mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion, o ystyried bod y dilyniant o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn uwch pan fydd hyn yn digwydd. | dargedu ardaloedd sydd angen ehangu'r opsiynau gofal plant sydd ar gael i rieni.<br><br>Mae cynllunio i sefydlu Cylch Meithrin neu glwb all ysgol cyfrwng Cymraeg ar safle ysgol yn rhoi mwy o opsiynau a sicrwydd i rieni.<br><br>Lle mae ysgolion yn mynd ati i newid o fod yn ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i un cyfrwng Cymraeg, byddai sefydlu Cylch Meithrin ar safle'r ysgol yn darparu pwynt mynediad cynharach at addysg cyfrwng Cymraeg i deuluoedd yng nghymuned ehangach yr ysgol.<br><br>Mae'r nifer o Glybiau All Ysgol Cyfrwng Cymraeg ar dir ysgolion wedi cynyddu o 138 (Medi 21) i 146 (Rhagfyr 23). Golygodd nawdd o'r prosiect CYmell yn ystod ei flwyddyn gyntaf fod:<br><br>• 8 Clwb Gofal Plant All Ysgol wedi eu cefnogi a derbyn cyllid grant er mwyn cofrestru ag AGC.<br>• 7 Cylch Meithrin wedi eu cefnogi a'u hariannu gan grant er mwyn ehangu i gynnig Gofal Plant All Ysgol i blant hyd at 12 oed.<br>• 2 lleoliad wedi eu cefnogi i newid eu hiaith weithredol i'r Gymraeg ac i geisio am nawdd grant.<br><br>Gellir darllen astudiaeth achos yn dangos pwysigrwydd dull gweithio partneriaeth rhwng  Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin  ac ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yma: Case-Study-Groes-Wen.pdf (clybiauplantcymru.org) |
| Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynnig Gofal Plant estynedig newydd. | Ni allwn ddod o hyd i Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) nac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynnig Gofal Plant (EIA) a gyhoeddwyd ers 2020.<br><br>Mae'r dull graddol o ehangu Dechrau'n Deg yn bragmatig (fel y'i nodwyd uchod mewn ymateb i Argymhelliad 2) gan ei fod yn caniatáu amser i feithrin gallu ac i hyfforddi staff; fodd bynnag, mae 'enillwyr a cholledwyr' o safbwynt plant a theuluoedd ac efallai nad yw hyn o fewn y diffiniadau gweithredol o hawliau'r plentyn.<br><br>Gellir gweld bod mynediad cynhwysol i blant 2 oed o fewn yr hawliau, tra bod y Cynnig Gofal Plant dim ond ar gael i rai o'n plant. |

| | |
|---|---|
| | Mae angen asesiadau CRIA ac AEA wedi'u diweddaru er mwyn datrys y materion. |
| Argymhelliad 7<br><br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu adnoddau mewn ieithoedd cymunedol heblaw am y Gymraeg a’r Saesneg, ac yn ychwanegol atynt**.** | Mae diffyg gwybodaeth am y Cynnig Gofal Plant, gofal plant, chwarae a dysgu sylfaen yn broblem ledled Cymru, felly mae sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac ar gael yn yr ieithoedd a siaredir gan gymunedau yng Nghymru yn hanfodol.<br><br>Yn 2019, lluniodd Mudiad Meithrin taflen amlieithog sydd ar gael mewn 7 iaith. Gafodd y daflen derbyniad cadarnhaol oherwydd y diffyg gwybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd drwy gyfrwng yr ieithoedd a siaredir gan gymunedau yng Nghymru. Er ei bod yn cael ei dosbarthu'n eang, rydym yn ymwybodol na fydd un daflen yn rhannu'r neges a'r wybodaeth am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn effeithiol, a hoffem weld marchnata digidol amlieithog a fyddai'n adnodd gwych i'w rannu am y gwasanaethau sydd ar gael mewn gwahanol ieithoedd. |
| Argymhelliad 8. Er mwyn mynd i’r afael â phryderon cyffredin ynghylch diffyg amrywiaeth ethnig yn y sector, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer:<br>▪ ei huned gwahaniaethau ar sail hil i gronni sylfaen dystiolaeth ynghylch lefel y gynrychiolaeth | Mae partneriaid CWLWM wedi creu partneriaeth gyda DARPL (Diversity and Anti-Racist Professional Learning ) ac wedi datblygu a chyflwyno cyfres o weithdai ar gyfer Uwch Arweinwyr ac Ymarferwyr y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae.<br>Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24 bydd partneriaid CWLWM yn cyflwyno hyfforddiant ar-lein, blogiau a chynhadledd i hyrwyddo gwrth-hiliaeth a hybu amrywiaeth o fewn y sector.<br><br>Mae staff polisi Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad i Gynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol ac wedi cyfrannu at arwain y gwaith hwn ar draws y sector. Mae data yn cael ei gasglu gan bartneriaid CWLWM ar ddemograffeg y gweithlu presennol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu amrywiaeth yn y sector - gan gynnwys penodi mentoriaid cymunedol i gefnogi staff o gefndiroedd mwyafrifol byd-eang gyda'u llwybrau i'r sector. |

| | |
|---|---|
| o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant; a<br>▪ datblygu cynllun gweithredu, gan gynnwys targedau uchelgeisiol, ar gyfer cynyddu nifer y staff o leiafrifoedd ethnig yn y sector | Hyd nes y bydd gennym ddata cadarn ar y gweithlu, mae'n anodd deall i ba raddau y mae cynnydd yn cael ei wneud, ac a yw hyn yn dderbyniol, neu os oes angen adnoddau pellach ac i fwrw ati gyda brwdfrydedd newydd.<br>Er mwyn sicrhau bod y gweithlu'n gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach, a'r cymunedau o amgylch ein lleoliadau, mae angen i ni weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu recriwtio wedi'i dargedu, gyda chefnogaeth, unwaith y byddwn wedi casglu'r data cadarn ynghylch y gweithlu. |
| Argymhelliad 9<br><br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun yn ei hymateb sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gofal plant ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth, fel yr hyn y mae Cwlwm yn ei ddatblygu, a sicrhau y daw'n rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sector | Mae camau cadarnhaol wedi digwydd yn erbyn yr argymhelliad hwn, gan gynnwys mwy o ganolbwyntio strategol rhwng CWLWM a Llywodraeth Cymru drwy gyfarfod trosolwg rheolaidd gyda gweithgorau sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud yn benodol ag allbynnau.  Mae partneriaeth weithredol rhwng DARPL a CWLWM wedi'i sefydlu er mwyn rhannu mynediad at hyfforddiant, adnoddau, a hyrwyddo gweithredoedd gwrth-hiliol yn y sector.<br><br>Mae bob partner CWLWM yn hyrwyddo'r gwaith hwn gyda'u haelodau eu hunain. Nid yw'r hyfforddiant hwn yn orfodol ond mae bellach yn cael ei argymell gan yr holl randdeiliaid ac yn cael ei hyrwyddo'n gyson.<br>Ar gyfer Blynyddoedd Cynnar Cymru (BCC), mae hyn wedi arwain at raglen hyfforddi 10 mis gyda charfan o arweinwyr a rheolwyr lleoliad, cyfres o ddeunyddiau hyfforddi i gefnogi arweinwyr yn eu sector, ac erthyglau niferus sy'n cael eu casglu a'u cyhoeddi yn ein cylchgrawn smalltalk.<br><br>Roedd gwrth-hiliaeth trwy lenyddiaeth hefyd yn bwnc y brif araith gan Laura Henry-Allain MBE yng nghynhadledd BCC ym Mehefin 2023.<br>Cynhaliodd CPCKC arolwg ym mis Rhagfyr 2023.  Allan o'r 302 o ymatebion a derbyniwyd, dywedodd clybiau fod o leiaf 524 aelod o staff wedi ymgymryd â hyfforddiant gwrth-hiliol ac mae 660 yn bwriadu gwneud hynny.<br><br>Mae'r Mudiad Meithrin wedi comisiynu a chyflwyno ystod o gyfleoedd hyfforddi i ymarferwyr a staff cenedlaethol fel rhan o'i arlwy hyfforddi parhaus, gan gynnwys:<br>• Hyfforddiant rhagfarn diarwybod<br>• Hyfforddiant ymwybyddiaeth: Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr |

| | |
|---|---|
| | • Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd<br>• Cylch i Bawb<br>• Hyfforddiant gwrth-hiliaeth<br>• Hunaniaeth rhywedd yn y blynyddoedd cynnar<br>• LHDTC+ |
| Argymhelliad 10<br><br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth gofal plant i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cynyddu faint o arian sydd ar gael drwy Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru i wella'r ddarpariaeth i blant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol neu gymhleth | Roedd yr Argymhelliad hwn yn destun Panel Craffu diweddar ym mis Hydref 2023. Mae'r materion sy'n ymwneud â chyllid a mynediad yn parhau ar draws y sector.<br>Mae prinder staff, cyllid tymor byr, heriau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a diffyg gwybodaeth arbenigol i gyd yn codi pryderon gan nad oes digon o adnoddau i ateb galw cynyddol o ran ADY a phlant sydd angen cymorth ychwanegol.<br><br>Nid mater uniongyrchol am gostau staff yn unig yw hwn, oherwydd gall cefnogi plant ag ADY gofyn am gynllunio ychwanegol, gwaith wedi'i dargedu, adnoddau gwahanol, hyfforddiant penodol, mynychu cyfarfodydd PCP, cyfnodau pontio a gynllunnir, a chefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar rieni.<br><br>O safbwynt y lleoliad, y prif reswm dros y prinder staffio yw nad yw'r cyllid ar gael gan yr Awdurdod Lleol, neu y bernir bod angen aros i weld a fydd cyllid ar gael. Yn ôl egwyddorion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae angen rhoi'r plentyn yn ganolog a chynllunio yn ôl ei anghenion, ac felly ni fydd angen cyllid ar gyfer 'dwylo ychwanegol' ym mhob achos, gan fod pawb yn wahanol. Serch hynny, mae'n ymddangos o'r ymatebion bod aros am sicrwydd o gyllid yn eithrio'r plant sydd ei angen ar hyn o bryd:<br>• 'Waiting to find out after the CDT meeting also waiting on outreach funding.'<br>• 'We are awaiting funding to be allocated for a 1:1 support, so that there is an adult to support our daughter by carrying her portable oxygen cylinder.'<br>• 'Waiting on a CDT meeting; my child was 2 in July but we don't have a start date for Cylch because they want to check the support will be in place for him.'<br><br>Mae aros i glywed a oes cyllid ar gael yn effeithio ar hawl plant anabl neu niwroamrywiol i ofal plant ac addysg. Bydd yr ansicrwydd hefyd yn effeithio ar |

allu'r rhieni/gofalwyr i gynllunio eu bywydau a sicrhau bod eu plant yn elwa o gyfleoedd i chwarae a chymryd rhan mewn addysg blynyddoedd cynnar.

Yn yr ymateb i'r holiadur ar gyfer rhieni a gofalwyr, codwyd mater cyllid yn ystod gwyliau fel un peth penodol a oedd yn atal plant anabl a niwroamrywiol rhag cael mynediad teg at ofal plant ac addysg. Yng ngeiriau un rhiant, mae'r cyfnodau gwyliau yn 'gyfnod anodd iawn' a bod cyllid ar gyfer gofal plant i'w merch ag anghenion dwys wedi ei ddiddymu yn gynharach yn 2023. Roedd hyn yn golygu ei bod hi, fel mam sengl, yn wynebu wythnosau o ofalu am ei merch heb seibiant, a bod hyn wedi cael effaith andwyol ar ei hiechyd meddwl hithau.

Yn ôl un rhiant, cymorth i gael gofal seibiant fyddai un o'r pethau mwyaf y gellir ei wneud i'w cefnogi fel teulu yn ystod y gwyliau, ond mae'n rhaid iddyn nhw ariannu a threfnu hyn eu hunain:

- 'We're not eligible for [respite] either, and we have to pay a family friend to do this for us. The holidays are a nightmare. We need more help and support. It's costing us a lot of money. Our son's costs are so much more expensive than other children so we must continue to work on very little sleep and very little respite in order to fund the extra needs. It's lonely and we're exhausted.'

Mae pryder gwirioneddol ymysg rhieni a gofalwyr y bydd gwasanaethau a chymorth sydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol yn cael eu cwtogi ymhellach. Mae CPCKC yn nodi bod diffyg cyllid cyson ar draws yr holl Awdurdodau Lleol ar gyfer Dwylo Ychwanegol ar hyn o bryd i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol i fynychu Clybiau All Ysgol (CAY). Mae rhai enghreifftiau isod fel y'u cyflwynwyd i'r pwyllgor yn Hydref 2023:

- Yn ein hymateb i'r Pwyllgor, dim ond 41% (14) o'r Clybiau Gofal Plant All Ysgol a ymatebodd gafodd mynediad at gyllid er mwyn cefnogi presenoldeb plentyn
- Derbyniodd y Clybiau Gofal Plant All Ysgol a ymatebodd i'r un arolwg ymholiadau gan rieni 234 o blant ag anghenion ychwanegol (waeth beth fo'u datganiad ffurfiol) gyda cheisiadau i gael mynediad at ofal plant all ysgol.

| | |
|---|---|
| | • O'r 234 ymholiad a dderbyniwyd ers mis Medi 2022, yn anffodus nad oedd 69 (29%) yn gallu cael mynediad at ofal plant all ysgol, gyda 26% yn nodi mai diffyg cyllid yw'r rhwystr.<br>• Nid yw pob awdurdod lleol yn ariannu plant oed ysgol, ac mae'r diffyg cyllid a chymorth parhaus, (heibio'r blynyddoedd cynnar) wedi achosi i riant, sy'n athro newydd gymhwyso gyda swydd sy'n dechrau ym mis Medi 23, ystyried rhoi'r gorau i'w chyflogaeth gan na all y plentyn gael mynediad at gymorth Dwylo Ychwanegol ar gyfer gofal plant.<br>• Bydd awdurdod lleol ond yn ariannu cefnogaeth 1:1 naill ai yn ystod addysg neu ofal plant i blentyn.<br>• Mae cyllid ar gyfer cymorth 1:1 mewn llawer o siroedd yn aml yn dod i ben yn unol â'r Cynnig Gofal Plant pan fydd plant yn cyrraedd oedran ysgol (5) a thrwy hynny effeithio ar allu plant i gael mynediad i Glybiau Gofal Plant All Ysgol.<br><br>O'r 302 o Glybiau All Ysgol a ymatebodd i arolwg Clwb Cenedlaethol CPCKC ym mis Rhagfyr 2023, roedd gan 66% blant ag anghenion cymorth/llesiant yn eu lleoliad. Roedd gan lawer ystod eang o anghenion gan gynnwys lefelau cynyddol o niwroamrywiaeth, ymddygiadau niweidiol e.e. cydymffurfio â normau rhywedd neu ymddygiadau hiliol, anhawster rheoli emosiynau, annibyniaeth wael, heriau lleferydd ac iaith, hunanhyder/parch isel, pryder neu hwyliau isel, anhawster gwneud ffrindiau newydd/sgiliau cymdeithasol eraill, ffitrwydd corfforol gwael. |
| Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb sut y bydd yn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i ehangu'r cynnig gofal plant dan y Cytundeb Cydweithio i alluogi plant dwy flwydd oed ag anghenion | Mae'r heriau'n ehangach nag ehangiad Dechrau'n Deg a chaent eu cynnwys yn y prinder staffio, yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ariannu'r ddarpariaeth, a'r galw cynyddol am y gwasanaethau gan fod mwy o blant sydd ag anghenion ychwanegol yn defnyddio gofal plant. Nodir fod mwy o anghenion yn cael eu hadrodd na chyn y pandemig COVID-19.<br><br>O ganlyniad, mae angen ganolbwyntio'n systematig ar bwysigrwydd blynyddoedd cynnar y plentyn ar draws pob sector ac o fewn adrannau Llywodraeth Cymru.<br>Mae'r un wyddoniaeth a dengys effaith Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod ar blant, ymhell heibio diwedd y trawma, hefyd yn darparu'r dystiolaeth bod buddsoddiad cynnar i ddechrau cadarnhaol plentyn yn cael effaith hirhoedlog, gan gyfrannu at well iechyd, addysg a chyfleoedd gydol oes. |

| | |
|---|---|
| ychwanegol neu gymhleth gael mynediad llawn at ddarpariaeth | Mae'r buddsoddiad cynnar hwn hyd yn oed yn fwy buddiol pan fydd yn cefnogi plentyn ag ADY. |
| Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i sicrhau y caiff cynllun capasiti tymor hir y sector cyfrwng Cymraeg, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei archwilio fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, ei lunio ochr yn ochr â gwaith ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg. Dylai hyn adlewyrchu'r effaith y mae prinder staff yn ei chael ar y sector cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg | Nid yw heriau recriwtio a chadw o fewn y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn newydd i'r sector. Mae gofynion rhaglenni a chynlluniau gan gyllidwyr, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru, yn rhoi pwysau cynyddol ar y gweithlu.<br><br>Gwyddom o brofiad bod angen cydbwyso gwerth y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae i'r economi yn gyffredinol â'r diffyg cydnabyddiaeth a pharch tuag at y sector. Ar hyn o bryd, rhaid bod gennych gymhwyster lefel 3 i arwain Cylch Meithrin / Cylch Chwarae (a lefel 5 ar gyfer lleoliad Dechrau'n Deg). Rhaid i ni hefyd gydnabod bod cyflogau isel i ymarferwyr yn y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar yn cyfrannu at yr heriau o recriwtio a chadw'r gweithlu, ac o ganlyniad mae'n cyfrannu at yr her o sicrhau darpariaeth ddigonol o ofal plant.<br><br>Mae ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar y cynnydd yn y mynediad Cymraeg sydd wedi'i ymgorffori yn y ddarpariaeth.<br>Mae rhagor o waith meithrin a chynyddu capasiti wedi bod yn mynd rhagddo mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a mynediad at gynllun iaith Camau, sy'n hanfodol wrth ddatblygu gweithlu blynyddoedd cynnar sy'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg.<br><br>Ond, rhaid hefyd nodi pwysigrwydd sicrhau cyfleoedd hyfforddi a chymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sydd am ddechrau gyrfa yn y maes. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod hyn, ac rydym yn cydweithio i ehangu'r rhaglen hyfforddi ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar drwy gynyddu cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddiant cychwynnol cyfrwng Cymraeg, ac ehangu'r rhaglen Croesi'r Bont sy'n trochi ymarferwyr newydd yn y Gymraeg.<br><br>Mae problem o hyd, ond mae hyn yn gysylltiedig iawn â'r cyllid y mae'r sector yn ei dderbyn, argaeledd swyddi sy'n talu'n dda ac yn gynaliadwy, a'r galw uwch am ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg.<br>Nod prosiect CYMell CPCKC yw: |

- cefnogi lleoliadau Gofal Plant All Ysgol cyfrwng Cymraeg anghofrestredig i ddod yn gofrestredig ag AGC.
- darparu cyllid grant i gefnogi lleoliadau sy'n dangos ymrwymiad i gofrestru, gan ganiatáu iddynt dalu costau staff sy'n mynychu hyfforddiant a'r oriau sy'n gysylltiedig â gweithio tuag at gyflwyno cais i gofrestru
- hyfforddi unigolion sy'n siarad Cymraeg mewn Gwaith Chwarae, gan ddileu'r rhwystr cymhwyso er mwyn i'r clybiau cofrestru ag AGC.
- darparu bwrsariaeth i gefnogi lleoliadau i dalu cost aelodau staff sy'n mynychu cymwysterau Gwaith Chwarae y tu allan i'w horiau gwaith neu i dalu am aelod o staff cyflenwol os yw'r hyfforddiant o fewn oriau gwaith.
- darparu cyllid grant i gynnal darpariaeth Gofal Plant All Ysgol Cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i chofrestru gan AGC.

Mae cynllun Addewid Cymraeg CWLWM, sydd wedi ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn cefnogi lleoliadau i gynyddu faint o Gymraeg maen nhw'n eu defnyddio gyda phlant a rhieni, drwy lefelau / tystysgrifau efydd, arian ac aur.  Anogir lleoliadau i weithio mewn adrannau bach y gellir eu rheoli, gan gyflawni un cyn symud ymlaen i'r nesaf.

Ers lansio'r cynllun, mae'r data ar gyfer Ebrill i Ragfyr 2023 yn dangos:

• Mae gan 198 o leoliadau ddiddordeb yn y wobr efydd

• Mae 117 o leoliadau wedi dechrau ar y wobr efydd

• Mae 41 lleoliad wedi cwblhau'r wobr efydd

• Mae gan 48 lleoliad ddiddordeb yn y wobr arian

• Mae 29 lleoliad wedi dechrau ar y wobr arian

• Mae 3 lleoliad wedi cwblhau'r wobr arian

• Mae gan 19 lleoliad ddiddordeb yn y wobr aur

• Mae 13 lleoliad wedi dechrau ar y wobr aur

• Mae 1 lleoliad wedi cwblhau'r wobr aur

| | |
|---|---|
| Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer adolygiad o sut y mae'n hyrwyddo gyrfaoedd yn y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut y gellir defnyddio addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod gan y sector ddigon o staff. | Er gwaethaf y pwyslais ar bwysigrwydd cynllunio yn y gweithle ym maes polisi iaith dros nifer o flynyddoedd, mae diffyg gweithlu blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn her ddifrifol. Rydym yn amcangyfrif y bydd angen 1500 yn fwy o unigolion arnom i gymhwyso yn ystod unrhyw dymor penodol yn y Senedd.<br><br>Mae dysgwyr sydd â 'Cam wrth Gam', Cynllun Hyfforddi CCPLD Cenedlaethol Mudiad Meithrin yn rhychwantu nifer o grwpiau demograffig (o ran oedran a lleoliad). Mae mwyafrif (71%) o'r rhai sy'n ymgymryd â chymhwyster L5 dros 26 oed ac mae mwyafrif y rhai sy'n ymgymryd â chymhwyster L3 dros 18 oed.<br><br>Yn ôl ystadegau diweddar a gyhoeddwyd gan Stats Cymru, dim ond canran fach (llai nag 1%) sy'n derbyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sector AB / prentisiaethau. Mae 'Cam wrth Gam' wedi gweld 4,340 o unigolion yn gymwys (gan gynnwys y rhai sydd ar fin bod yn gymwys) ers ei sefydlu yn 2004.<br><br>Mae rhaglen 'Sefydlu a Symud Ymlaen' Mudiad Meithrin yn creu galw (fel y gwelir yn y cynnydd dramatig yn nifer yr oriau wythnosol y mae Cylchoedd Meithrin yn eu cynnig): i fyny o 6180 awr (yn 2016) i 8554 awr (yn 2023) sy'n creu her ychwanegol (ond i'w groesawu) o ran dod o hyd i ymarferwyr.<br><br>Fel y gwelwyd yn 2022, er mwyn cwrdd â'r heriau a'r nodau hyn, mae angen i ni gymhwyso hyd at 300 o staff newydd bob blwyddyn (sydd, drwy raglenni amrywiol Mudiad Meithrin, gyda 'Cam wrth Gam' wrth ei wraidd yn agos at gael ei wireddu).<br><br>Mae angen parhau i fuddsoddi ym maes hyfforddi'r gweithlu a chymhwyso, a dylai hyn gynnwys cefnogi Mudiad Meithrin i allu hyfforddi ei weithlu ei hun yn uniongyrchol drwy 'Cam wrth Gam' – sydd hefyd â Statws Hawliadau Uniongyrchol gyda CBAC a City and Guilds yn adlewyrchu eu hymddiriedaeth wrth gyflwyno'r cwrs.<br><br>Mae ein Rhaglen Ysgolion Cam wrth Gam hefyd yn brosiect pwysig a ddarperir gan y Mudiad Meithrin ac mae'n cael ei hangori gan brif isadeiledd 'Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol Cam wrth Gam'.<br><br>Mae bodolaeth y cynllun hwn wedi bod yn arwydd o'r pwysigrwydd eithriadol a oedd, ac sy'n dal i fodoli, ar y cyflenwad uniongyrchol o staff cyfrwng Cymraeg |

| | |
|---|---|
| | sydd ei angen ar y sector (ac sydd hefyd yn helpu'r sector addysg statudol o ystyried bod y cymhwyster L3 hefyd yn cael ei gydnabod yno).<br><br>Yn syml, nid yw ddigon o bobl yn dewis gweithio yn y sector Gofal Plant cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r Sector Gofal Plant a Chwarae yn gyffredinol, ond mae'r alwad am staff cymwysedig sy'n siarad Cymraeg mewn nifer o feysydd yn gwneud yr her yn y sector Gofal Plant cyfrwng Cymraeg yn fwy difrifol.<br>Mae cyllid gan brosiect CYMell CPCKC wedi caniatáu'r canlynol:<br>• i 50 o ddysgwyr ennill cymhwyster gwaith chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg gyda 73 arall yn dal i ddysgu.<br>• dyfarnu 83 bwrsariaeth i gefnogi lleoliadau gyda chostau ychwanegol staff sy'n mynychu hyfforddiant. |
| Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau cynnydd digonol yn y tâl fesul awr i ddarparwyr dan y Cynnig Gofal Plant i alluogi cynnydd yng nghyflogau'r staff, ac amserlen ar gyfer talu'r cyflog byw gwirioneddol i bob gweithiwr gofal plant, gan ddysgu o'r ffordd yr ymgorfforodd Llywodraeth yr Alban hyn yn ei chynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant | Ni fu unrhyw newid i'r gyfradd a dalwyd am y Cynnig ers adroddiad 2022. Mae ein data cyfredol yn dangos bod y pwysau ar y sector wedi cynyddu ers 2022, gyda chryn bryder ar hyn o bryd nad yw'r gyfradd yn ddigonol i fodloni'r ddarpariaeth gwasanaeth, heb sôn am ystyried unrhyw godiad i gyflog staff.<br><br>Mae angen blaenoriaethu hyn cyn yr adolygiad llawn o'r gyfradd a drefnwyd ar gyfer 2025. Byddai methiant i wneud hynny'n peryglu hyfywedd nifer fawr o ddarparwyr ar draws y sector, ac yn ogystal, mae'n gofyn i ddarparwyr amsugno colledion 2024/25 yn sgil y golled a daw o leoedd a ariennir. Felly, mae'r model hwn yn anghynaladwy i'r sector. Mae rhai darparwyr yn ystyried lleihau eu dibyniaeth ar leoedd a ariennir i hwyluso'r gallu i gynyddu refeniw trwy lefydd a ariannir gan ffynonellau eraill. Mae'r ddibyniaeth ar gymhorthdal gan deuluoedd sy'n talu ffioedd yn breifat er mwyn gwneud yn dda am y golled a wnaed oherwydd lleoedd a ariennir yn ychwanegu at y pwysau ariannol ar y teuluoedd hynny.<br><br>Rhwng Tachwedd 2023 a Rhagfyr 2023, cynhaliodd BCC ymchwiliad data o fewn ei aelodau. Yn y cyfnod hwn fe wnaeth 159 o ddarparwyr ymateb i'r arolwg. Mae'r prif ddata allweddol a gaiff ei ddarparu isod yn seiliedig ar ragamcanion sy'n ofynnol i gwrdd â'r codiad i isafswm cyflogau ym mis Ebrill 2024: |

- Mae 84% o aelodau BCC yn anghytuno bod y codiad mewn isafswm cyflog yn fforddiadwy yn seiliedig ar y modelau cyllido cyfredol a phwysau ariannol eraill .
- Mae 91% o aelodau BCC am gynyddu ffioedd rhieni neu'n ystyried gwneud.
- Nid yw 94% o aelodau BCC yn credu bod y gyfradd a ariennir yn talu costau darparu lleoedd gofal plant.
- Mae bron pob darparwr yn credu y dylid adolygu'r gyfradd yn flynyddol neu ei symud yn unol â chwyddiant trwy ryw fecanwaith megis indecs gyswllt neu yn unol â chynnydd i'r isafswm cyflog.
- Mae 72% o aelodau BCC yn hyderus y gallent gynnal y model presennol am flwyddyn, 20.2% am 2 flynedd, a dim ond 8.8% dros y pum mlynedd nesaf.
- Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn nodi bod cyfraddau cyllido rhwng £6-£8 (mae'r amrediad rhwng £5/awr - £10/awr) yn fwy priodol na'r £5 yr awr bresennol.

Nododd arolwg cyflwr y sector NDNA yng Nghymru o fis Chwefror 2023 fod mwyafrif helaeth y meithrinfeydd (88%) naill ai'n disgwyl gwneud colled neu adennill costau, gyda chwarter y meithrinfeydd yn disgwyl colled ariannol. Roedd hyn oherwydd bod 90% yn dweud nad oedd y gyfradd ariannu ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru (£5 yr awr y plentyn) yn ddigon i dalu am gostau darparu'r gwasanaeth. Cofnodwyd bod y diffyg ariannol fesul plentyn am 20 awr o'r Cynnig Gofal Plant ym mis Chwefror 2023 yn gyfystyr â £2,500 y flwyddyn.

Gyda darparwyr yn dioddef straen ariannol o'r fath, nid yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu eu cyfraddau cyllido o leiaf bob tair blynedd yn mynd i gefnogi'r sector blynyddoedd cynnar.

Os na all meithrinfeydd gynhyrchu gwarged ni allant fuddsoddi yn ansawdd eu darpariaeth, gan gynnwys hyfforddiant staff ac adnoddau. Maen nhw eisiau rhoi'r profiadau dysgu gorau posibl i'w plant ond ni allant wneud hyn os ydynt yn ei chael hi'n anodd goroesi.

Mae crynodeb byr o arolwg NDNA 2023 yn dangos:

• Cynnydd cyfartalog mewn costau staffio ar gyfer meithrinfeydd: 14.7%

• Cynnydd cyfartalog mewn ffioedd rhieni: 7.4%

| | |
|---|---|
| | • Mae 88% o feithrinfeydd yn disgwyl gwneud colled neu ddim ond adennill costau.<br>• Mae 25% o feithrinfeydd yn dweud eu bod yn disgwyl gwneud colled.<br>• Mae 63% yn disgwyl adennill costau.<br>• Mae 5% yn disgwyl gallu cynhyrchu gwarged.<br>• Mae 90% o'r ymatebwyr bellach yn dweud nad yw cyfraddau cyllido yn talu costau darparu'r gwasanaeth (o'i gymharu â 29% ym mis Medi 2021).<br>• amcangyfrif mai'r diffyg yng nghyllid ar gyfer lleoedd 3 a 4 oed a ariannir yw £2.60 yr awr (o'i gymharu â £1.46 yn 2021).<br>• Mae 39% o'r oriau yn cael eu hariannu gan y Llywodraeth a 61% gan ffioedd rhieni (yn 2021 y gyfradd oedd 36% a 64%).<br>• Ar gyfer plentyn arferol, mae cyllid y Cynnig Gofal Plant i Gymru (20 awr o elfen gofal plant) yn golygu colled ariannol o £2,496 y flwyddyn i'r ddarpariaeth. Gyda darparwyr yn gorfod mynd blwyddyn arall heb gynnydd yn y gyfradd ariannu, rydym yn disgwyl gweld canlyniadau pryderus iawn o arolwg NDNA o gyflwr y sector yn 2024. |
| Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau y caiff ei chynllun gweithlu arfaethedig ei ddatblygu gyda phartneriaid cymdeithasol, a'i fod yn cynnwys ffocws ar wella amodau gwaith yn y sector, yn ogystal â datblygu'r gweithlu | Yn anecdotaidd, mae canfyddiad o hyd nad yw gofal plant yn derbyn tâl digonol, ac nad yw'n cael ei werthfawrogi'n ddigonol o'i gymharu â gyrfaoedd yn y sector addysg a gynhelir. Mae'r datganiadau ansoddol o arolwg BCC yn dangos yn glir sut mae pobl yn canfod eu llwyth gwaith a'r ffaith nid yw'r hyfforddiant a'r gydymffurfiaeth statudol y mae angen yn eu gwaith yn cael eu cydnabod yn eu cyflogau. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadaeth at oriau gwaith hirach na Chynorthwywyr Addysgu, atebolrwydd a dyletswyddau mwy eang, ac amodau gwaith gwaeth o ran cefnogaeth strwythurol. Mae teimlad eang bod lefel yr atebolrwydd a'r galw yn llawer mwy na swyddi sy'n cynnig cyflogau tebyg ,ac (yn enwedig i'r rhai sydd â phrofiad helaeth a chymwysterau lefel uwch) y disgwylir iddynt dderbyn mai dyma ydi 'gwerth' eu gwaith.<br><br>Os na all cyllid y sector cyhoeddus ddarparu model busnes lle gall y sector dalu cyflog teg i bobl, yr unig ateb ymarferol arall yw ail-fframio cyllid gofal plant fel 'cymhorthdal' a chaniatáu i ddarparwyr godi ffioedd ychwanegol ar rieni. Y risg gynhenid yma yw bod y teuluoedd sydd hefyd yn teimlo'r esgid yn gwasgu yn teimlo nad ydynt yn gallu fforddio'r taliadau a bod plant yn colli allan ar ofal plant o ansawdd uchel. Gallai hyn arwain at fynediad fwyfwy anghyfartal a gwthio mwy o deuluoedd i dlodi. |

| | |
|---|---|
| | Mae angen buddsoddiad mwy dwys arnom i hyfforddi a chymhwyso'r gweithlu, gan nodi rhagoriaeth y cymwysterau ôl-2019 newydd o ran safonau ac ansawdd, ond hefyd gan dderbyn bod angen modelau gwahanol i apelio at wahanol fathau o ddysgwyr. Mae angen i ni hefyd gydnabod yr heriau penodol o gynllunio gweithlu cyfrwng Cymraeg a mynd i'r afael â'r rhain gyda chynllun neu gynlluniau ar waith ar gyfer economi gyfunol.<br><br>Rhaid ystyried pa gymorth ariannol sydd ei angen ar ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r cynllun 'Cam wrth Gam', er mwyn denu ysgolion newydd a chadw'r rhai sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol ym maes Gofal Plant a Gwaith Chwarae.<br><br>Ar hyn o bryd mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn archwilio cynllun peilot gyda'r DWP, Gofalwn Cymru, Timau Gofal Plant Awdurdodau Lleol a phartneriaid cyflogadwyedd eraill i recriwtio gweithwyr chwarae newydd. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar fanteision Gwaith Chwarae fel gyrfa, rydym wedi ymgysylltu â rhwydweithiau Cynorthwywyr Addysgu ac wedi gwneud cyflwyniadau iddynt er mwyn hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ar gyfer dysgu proffesiynol.<br>Gellir gweld astudiaeth achos o Gasnewydd ar fanteision gwaith chwarae ar gyfer CA yma: https://www.clybiauplantcymru.org/wp-content/uploads/2022/11/Aros-a-Chwarae.pdf |
